

CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071



9 771753 107001 >

Rhifyn 287 - 60c
Hydref 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

**Pysgotwr o
Llanllwni
ar y teledu**



Tudalen 11

**Cadwyn
cyfrinachau
yr ifanc**



Tudalen 14

**Lluniau
Pêl-droedwyr
llwyddiannus**



Tudalennau: 12, 15, 17

Capel Shiloh yn cofio Islwyn Ffowc Elis



Bore Sadwrn Medi 25ain cynhaliwyd seremoni arbennig iawn a hanesyddol yn Ffordd Glynhebog, Llanbedr Pont Steffan. Yno, dadorchuddiwyd plac ar fur "Pengwern", cartref y diweddar Islwyn Ffowc Elis o'r flwyddyn 1975 hyd 2004 er coffa amdano. Twynog Davies, ysgrifennydd Shiloh, gyda chymorth Mrs Mair Lewis blaenor yn Shiloh a ffrind agos y teulu oedd yn gyfrifol am yr holl drefniadau ar ran aelodau a chymdeithas y capel. Y gweinidog, y Parchg. Elwyn Jenkins oedd yn cyflwyno ac offrymwyd gweddi briodol iawn ganddo ar gychwyn y seremoni.

Gyda Sian Solomon merch Islwyn ac Eirlys a'i phriod wedi dod o'u cartref yn ardal Windsor ar gyfer yr achlysur, a gyda'r haul yn tywynnu fel petai'n ganol haf, hyfryd oedd cael yn bresennol gynrychiolaeth deilwng iawn o gymdogion, ffrindiau, aelodau o eglwysi a mudiadau yn y dref a'r fro, Elwyn Jones o'r Cyngor Llyfrau ac hefyd Maer y dref a'r Faeres.

Y Bnr. Rheinalt Llwyd, perthynas i Islwyn a chyfaill agos iawn iddo a gyflawnodd y weithred o ddadorchuddio'r plac. Cawsom ganddo hefyd fywgrafflun cryno a hynod o ddidorol o yrfa a doniau un a oedd nid yn unig yn un o nofelwyr mwyaf y genedl ond hefyd yn fardd, yn ddramodydd, yn gerddor ac yn arlunydd. Yn ogystal â chyfeirio at ysgrifau a nofelau Islwyn, soniodd hefyd am nodweddion ei yrfa gan gynnwys y cyfnodau pan oedd yn weinidog gyda'r Presbyteriaid, yn awdur llawn amser, yn ddarlithydd yn Ngholeg y Drindod ac yn ddiweddarach yn Llambled ble, yn ôl Islwyn ei hunan, ymgartefodd y teulu yn hapus iawn.

Yn dilyn y weithred, cynhaliwyd bore coffi a drefnwyd gan y chwiorydd yn festri Shiloh. Agorwyd yr achlysur gan Sian a diolchodd yn gynnes iawn i bawb a oedd yn gydsylltiedig â threfniadau'r dydd. Cafwyd darlenniad allan o nofel fawr Islwyn, sef "Cysgod y Cryman" gan Mrs Mair Lewis ac yna fe'n diddanwyd gan aelodau Côr Cwmann yn canu "Dashenka", y geiriau a'r gerddoriaeth o waith Islwyn. Yr oedd y gefnogaeth a gafwyd yn galonogol iawn a bu prysurdeb mawr o amgylch y byrddau i'r chwiorydd oedd yn gwasanaethu ac ar y stondinau. Yn ddiau yr oedd yr achlysur yn un cofiadwy iawn a diolchwyd i bawb gan y Parchg. Elwyn Jenkins.

Llyfrau, CD's, DVD's a Chardiau Cyfarch

Siop Y Smotyn Du

Llambled

ar Sadyrnau

9fed, 16eg a'r 23ain

ym mis Hydref yn UNIG

10:00y.b. – 4:00y.p.

**Sêl
Fawr**

**Fawr
Sêl**

80% i ffwrdd o'r llyfrau a'r CD's a 5 cerdyn cyfarch am £1
Dyma'ch cyfle olaf gan fod y Siop yn CAU!



Chris Regan, Llanwnnen a Lisa Evans, Felinfach a briodwyd yn Eglwys Llanfihangel Ystrad ar y 24ain o Orffennaf yn byw nawr yn Llangybi.



Rhys Williams, Bayllau, Cellan a Rhian Megan Turnbull a briodwyd ar y 1af o Fedi, ym Mhortmeirion.



Huw Edwards, Ddeunant, Cwmann a briododd Wendy Cashel o Iwerddon ym mis Gorffennaf. Maent yn byw yng Nghae Coedmor, Cwmann.

Carnifal Llambed



Gorsaf
Brawf
MOT

GAREJ BRONDEIFI



Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

- * Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
- * Teiars am brisiau cystadleuol
- * Ceir newydd ac ail law ar werth
- * Batris * Brecs * Egsost
- * Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur



Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm,
Busnesau, Ceir a Thai



Arbenigedd lleol
Polisiau at bopeth
Prisiau cystadleuol
Tawelwch meddwl

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361
neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa Yswiriant FUW,
Sgwar y Mart, Llanybydder

Mae Undod Amaethwyr Cymru wedi ei sefydlu'n ddiwylliaeth a chyswrtio y Gwasanaethau Fferm a'r Undod Amaethwyr Cymru yn gyffwrdd gyda'r Llywodraeth Cymru.

Mae CLONC wastad yn chwilio
am bobl newydd i helpu.

*Hoffech chi ysgrifennu erthygl
neu dynnu lluniau?*

*Hoffech chi weinyddu'r wefan?
Neu beth am waith dylunio?*

*Rydym yn chwilio am swyddogion
hysbysebu a swyddogion
gwerthiant.*

*Allech chi sbario awr y mis wrth
ymuno â'r criw ffyddlon sy'n
plygu Clonc?*

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd
Busnes er mwyn cynnig eich
gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Hydref: Rhian Lloyd, 12 Bro Ddewi, Ffoeffin 01545 571234
Tachwedd: Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen 480526
e-bost: golygydd@clonc.co.uk

Tim Golygyddol: Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan

Dylunydd: Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
Swyddog Dosbarthu Eifion Davies, Afallon, Drefach 480590
e-bost: bedwyr@btopenworld.com

Teipyddion Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
Joy Lake, Llambled

Gohebwy'r Lleol:

Cellan Meinir Evans, Rhydfechan 421359
Cwmann Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen 422922
Cwmsychbant Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Llanwenog/Drefach Mary Davies neu Eifion Davies
Ffaldybreinin/Ffarmers Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers 01558 650507
Gorsgoch Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod 434238
Llambled Janet Evans, Haulfryn 422856
Llanfair Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn 493407
Llangybi a Betws Mair Spate, Tŷ Capel Maesffynnon 493325
Llanllwni Dewi Davies, Glanafon 480218
Llanwnnen Meinir Ebbsworth, Brynamllwg 480453
Llanybydder Menna Jones, Ceginau Lifestyle 480257
Pencarreg Linda Thomas, Dolgwm Uchaf 422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann 422349
e-bost: cadeirydd@clonc.co.uk
Is-Gadeirydd Marian Morgan, Glasfan, Drefach 480490
Ysgrifenyddes Mary Davies, Maesglas, Drefach 480015
Trysorydd Nia Davies, Maesglas, Drefach 480015
e-bost: ysgrifennydd@clonc.co.uk

Ceidwad y Camera Janet Evans, Haulfryn, Llambled 422856
Ffotograffydd Tim Jones, Llainwen, Llambled 422644

Argraffwyr Gwasg Aeron, Aberaeron 01545 570573

Gwerthfawrogi gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: www.clonc.co.uk os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: www.facebook.com/clonc
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu eostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambled.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Marchnad Deg

Mae'r mwyafrif ohonom yn ymwybodol o sut mae cynorthwyo'r marchnadoedd yn y trydydd byd. Diau fod pob un yn gweld tegwch yn hyn. Faint ohonom sy'n ymwybodol o'r anhegwch i unigolion neu deuluoedd bach wrth siopa. Pa werth yw cynigion fel 'Prynwch un ac fe gewch y llall am ddim', neu os ewch a dau cewch yr ail am hanner pris'. Dyw hyn yn dda i ddim i'r unigolyn – nid yw angen digon o orennau i bara mis, ac nid yw llanw'r oergell a'r nwyddau di-angen o werth yn y byd iddo. Paham na fedrwn ni gael marchnad 'pris' teg yn lle ceisio ein twyllo gyda bargeinion. Peth arall sy'n fy ngwylltio yw cael darn o bapur yn cynnig arian i ffwrdd os gwariwch chi swm arbennig cyn diwedd yr wythnos.

Oes, mae na ateb – anghofiwch eich archfarchnadoedd a chefnogwch siopau lleol a marchnadoedd y ffermwyr.

S4C

Rhaid yn wir canmol llawer o'r rhaglenni a welwn ar ein teledu y dyddiau yma. Mae'r gyfres Pen Talar yn argoeli'n ddrama gyfres arbennig o dda, ac i fi mae gwyltio 'Pysgota' yn wych. Bydd rhai ohonoch yn achwyn am fod gormod o raglenni yn cael eu hail ddangos. Mae'r ateb yn syml – trowch y teledu i ffwrdd a chydych mewn llyfr. Mae'n rhaid i ni ganmol y ddarpariaeth a sylweddoli na fedr yr un sianel blesio pawb.

Radio Ceredigion.

Gredwch chi ddim, rwy'n

gwrando ar Bontlwyd wrth baratoi Siprys. Fe fedrwn chithau wrando ar gyfres Haf 2010 gan fod Theatr Felinfach wedi paratoi 4 cryno ddisg ichi ei chwarae adre. Fe fydd modd i chi fenthycu rhain o siopau arbennig. Yr un i ni yn nalgylch 'Clonc' yw J.H.Roberts yn Llambled. Bydd llawer mwy o fanylion yn ymddangos yn fuan – felly cadwch eich clustiau a'ch llygaid yn agored.

Ad-drefnu.

Dim y cyfrifiadur yw'r peiriant gore i drefnu ardaloedd fydd yn cael eu cynrychioli gan Gynghorwyr Sirol. Canolbwyntir ar boblogaeth ardal heb ddod i ystyrieth am y gwahaniaeth rhwng cymunedau. Nid yw Llambled a Llanwnnen neu Llanwenog â'r un problemau o bell ffordd. Mae gwahaniaeth rhwng tref a gwlad. Y broblem yw cyfrif pennau yn unig heb ystyried y canlyniadau wna'r cyfrifiadur. Yr ydym wedi dioddef dros y blynyddoedd yn nalgylch 'Clonc' gan fod y pwyslais ar y boblogaeth mewn gwahanol feysydd yn ein gadael o dan anfantais. Awdurdodau yr heddlu yn cyfrif pennau, yn aml dros ardaloedd hollol wledig – ninnau yn dioddef oherwydd swm y boblogaeth sy'n rhoi plismon i ni. Naws ryfedd nad oes yr un i'w weld yn cerdded yn ein hardaloedd. Yr ambiwlans wedyn – disgwyl iddynt gyrraedd lleoliad damwain mewn amser penodedig, heb gymeryd i ystyriaeth natur yr heolydd a'r drafnidiaeth sydd arni'n barod.

Pob hwyl am y tro -

CLONCYN

Dyfarniad y Darllenydd

Un o gryfderau mwyaf Dic Jones, y bardd gwlad, oedd ei allu i ysgrifennu cerddi cofiadwy a oedd yn apelio at bawb. Mae nifer o'r cerddi hyn wedi eu casglu mewn cyfrol newydd gan wasg Gomer, **Cerddi Dic yr Hendre** sy'n deyrnged i waith arbennig y ffermwr, bardd a'r Archdderwydd.

Y Prifardd, a chyfaill agos i Dic Jones, Ceri Wyn Jones ymgymherodd â'r dasg enfawr o ddethol rhai o gerddi Dic i'w cynnwys yn y gyfrol arbennig hon, tasg dipyn anoddach nac oedd yn ymddangos ar y dechrau.

"Y bwriad gwreiddiol oedd gwneud detholiad gweddol gryno er mwyn sicrhau bod goreuon cerddi Dic ar gof a chadw i ddarllenwyr hen a newydd. Ond wrth i fi fynd ati, fesul cyfrol unigol, i ddewis y cerddi hynny, fe ddaeth yn amlwg bod angen casgliad mwy swmpus er mwyn cynrychioli'n deg waith Dic dros hanner can mlynedd o gyhoeddi," eglura Ceri a ddaw o Aberteifi.


"Gan fod ystod mor eang o bynciau a dulliau a chyweiriau yng ngherddi Dic, roeddwn am sicrhau hefyd fod yr amrywiaeth honno'n cael ei hadlewyrchu yn y detholiad. Dyna pam fod y penillion bychain bachog a'r englynion comig yn cadw cwmni'n ddiddig â'r cerddi marwnad dirdynol a'r awdlau eisteddfodol mawr," ychwanega.

"Wedi'r cwbl, roedd Dic ei hun, fel personoliaeth a chwmniwr, yn symud o'r naill pegwn i'r llall yn gwbwl naturiol a didrafferth. Mwy na hynny, roedd e'n gallu cyfuno'r dwys a'r digri yn yr un gwynt," meddai Ceri a ddaeth i adnabod Dic drwy ei gyfeillgawrch â meibion yr Hendre.

Mae dros 400 o gerddi Dic Jones wedi eu cynnwys yn y gyfrol, yn amrywio o awdlau adnabyddus i englynion bachog crefftus. O ran diddordeb lleol ceir ynddi englynion 'I Gyfarch Mr a Mrs Edwin Jones' (Maer a Maeres Llambled). Ond mae Ceri Wyn Jones yn mynnu bod yr un integriti barddol a dynol i'w weld yn y penillion ymddangosiadol ffwrdd-â-hi ag sydd yn amlwg yn y gweithiau mawr.

"Mae stamp unigryw ar ei gerddi: dim ond Dic sydd yn gallu sgrifennu fel hyn," meddai. "Mwy na hynny, llwyddodd i gynnal safon ei waith dros gyfnod o hanner can mlynedd, gan wybod na ddylasai bardd ddibynnu ar enw da'r gorffennol. Fel creadur cynhenid gystadleuol, roedd Dic yn gwybod 'You're only as good as your last englyn!'"

Cerddi Dic yr Hendre Gol: Ceri Wyn Jones, Gomer ar werth nawr am £14.99 ond mae gan Clonc gopi fel gwobr i'r enw cyntaf o'r het. Danfonwch eich enw a chyfeiriad ar gerdyn i Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET neu ebostiwch cystadleuaeth@clonc.co.uk.





HYDREF

- 7 - Sioe Ffasiwn gan Ededa J yng Ngwesty'r Emlyn, Castell Newydd Emlyn. Elw tuag at Sioe'r Cardis.
- 7 - Cwrdd Diolchgarwch Capel Seion, Cwrtnewydd am 7y.h. Parch Carys Ann, Glynarthen.
- 10 - Oedfa'r Ifanc yn Noddfa am 5:00y.p.
- 11 - Bingo Pwyllgor Henoed Llanllwni yn y Neuadd Gymunedol.
- 11 - Lisa Marie Harding-Jones y Gof-arlunydd gyda Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
- 12 - Cwrdd Diolchgarwch Capel yr Erw, Cellan am 7.00y.h. Pregethir gan y Parch. Beti Wyn James, Caerfyrddin. Croeso cynnes i bawb.
- 13 - Cwrdd Diolchgarwch Capel Brynteg am 7y.h. - y Parch. John Gwilym Jones yn pregethu.
- 13 - Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Betws am 10:45y.b. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Dafydd Aeron.
- 13 - Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrrhos am 7:00y.h. dan ofal y Parch John Gwilym Jones.
- 13 - Cwrdd Diolchgarwch Capel Nonni, Llanllwni am 7:00y.h. gan y Parch Emlyn Dole. Croeso cynnes i bawb.
- 17 - Cystadleuaeth Bryn Terfel - Urdd Gobaith Cymru ym Mhafiliwn Bontrhydfendigaid am 7:00y.h.
- 18 - Kevin Davies, Llanybydder yng Nghymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos am 7.30yh.
- 21 - Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 7:30y.h. Pregethir gan y Parch Alun-Wyn Dafis, Cei Newydd.
- 21 - Peter Hughes Griffiths yn lansio ei hunangofiant, 'O Lwyfan i Lwyfan' yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin am 7.30y.h.
- 24 - Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Sul Capel-y-Cwm, Cwmsychpant am 3:00y.p.
- 25 - Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.
- 25 - Noson Bingo yn Festri Capel-y-Cwm. Elw tuag at yr Ysgol Sul 7:30y.h.
- 26 - Bingo dan nawdd Sefydliad Prydeinig y Galon yng Nghlwb Rygbi Llanybydder am 8:00y.h. Elw tuag at Nyrs Calon Ceredigion.
- 28 - Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion yn Neuadd y Celfyddydau Prifysgol Cymru Drindod Sant, Llanbedr Pont Steffan.
- 28 - Stondin Cacennau ym marchnad geffylau Llanybydder gan Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni.
- 30 - Eisteddfod C.Ff.I. Ceredigion yn Neuadd y Celfyddydau Prifysgol Cymru Drindod Sant, Llanbedr Pont Steffan.
- 30 - Eisteddfod Gadeiriol Pumsaint yn Neuadd y Coroniaid, Pumsaint. Agored i ddechrau am 2:30y.p. Manylion pellach 01558 650292.
- 30 - Cyngerdd Blyneddol Côr Llanpumsaint a'r Cylch yn y Tabernacl Caerfyrddin. Perfformiad o STABAT MATER gan Rossini.
- 30 - Sioe PERTHYN yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.
- 30 - Cyngerdd i'r Galon, Corau Meibion Ceredigion - ABERYSTWYTH - BLAENPORTH - CARON - CWMANN yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Tocyn £10.00 a'r gael oddi wrth Janice Petche (01970) 828861 Elw at Apêl Nyrs Calon Ceredigion.

TACHWEDD

- 8 - Ivor Lloyd gyda Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
- 9 - Pedwarawd Sacsoffonau Lunar yng Nghlwb Cerddoriaeth Llambled yn Neuadd y Celfyddydau am 7.30y.h.
- 13 - Gŵyl Cerdd Dant Glannau Menai ym Mhrifysgol Bangor.
- 13 - Diwrnod Agored Eglwys Llanwenog 'Paned a Chlonc' 2.00 -5.30.
- 15 - 'Llefydd Difyr' gan Awen Harries Rhydaman yng Nghymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos am 7.30yh.
- 20 - Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Neuadd Fawr, Aberystwyth.
- 21 - Clwb Cerddoriaeth Llambled yn cyflwyno Tom Poster ar y Piano yn Neuadd y Celfyddydau am 3.00y.p.
- 22 - Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.
- 23 - Noson o goginio gan Sirian Davies yn Festri Capel-y-Cwm.
- 27 - Arwerthiant Blyneddol Capel Seion, Cwrtnewydd.
- 27 - Ffair Nadolig yn Neuadd Gymunedol Llanllwni gan Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni. Manylion pellach i ddilyn.

RHAGFYR

- 5 - Oedfa Sul yr Urdd am 5:00y.h.
- 6 - Bingo gan Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni.
- 13 - Blodau Nadolig Donald Morgan gyda Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.
- 20 - Hazel Charles Evans Thomas, Llandybie yng Nghymdeithas Ddiwylliadol Bethel Parcyrrhos am 7.30yh.

Gwefannau Gymunedol:

- Capel Bethel Parcyrrhos: www.bethel.btck.co.uk
- Cerddorfa Siambr Llambled: www.lampeter-orchestra.co.uk
- Clwb Cledlyn: www.clwb-cledlyn.org.uk
- Clwb Moduro Llambled a'r ardal: www.ldmc.org.uk
- Clwb Rygbi Llambled: www.clwbrygbillambled.org
- Côr Cardi-Gân: www.corcardi-gan.com
- Côr Meibion Cwmann: www.corcwmann.btck.com
- Côr Merched Côrisma: www.corisma.btck.co.uk
- Cyngor Tref Llambled: www.lampeter-tc.gov.uk
- Cymdeithas Cerdd Llambled: www.lampetermusic.co.uk
- Ffair Fwyd Llambled: www.lampeterfoodfestival.org.uk
- Ffair Ram: www.ffairram.btck.co.uk
- Ffarmers: www.ffarmers.org
- Gwenynwyr Llambled: www.lampeterbeekeepersassociation.co.uk
- Llanllwni: www.llanllwni.co.uk
- Llanybydder: www.llanybydder.org.uk
- Menter Llambled: www.lampeter.org
- Papur Bro Clonc: www.clonc.co.uk
- Plwyf Llanwenog: www.plwyfflanwenog.com
- Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan: www.llambled.ac.uk
- Pwll Nofio Llambled: www.lampeterpool.com
- Sgowtiaid Llambled: www.1stlampeter.co.uk
- Transition Llambled: www.transition-llambled.org.uk
- Y Ford Gron Llambled: www.lampeterroundtable.org.uk
- Ysgol Carreg Hirfaen: www.ysgolccc.org.uk/hirfaen
- Ysgol Cwrtnewydd: www.cwrtnewydd.ceredigion.sch.uk
- Ysgol Ffynnonbedr: www.ffynnonbedr.ceredigion.sch.uk
- Ysgol Gyfun: www.ysgol-llambled.org.uk
- Ysgol Llanwenog: www.ysgolllanwenog.co.uk
- Ysgol Llanwnnen: www.ysgolllanwnnen.co.uk
- Ysgol y Dderi: www.ydderi.ceredigion.sch.uk

Os am ychwanegu at y rhestr, anfonwch ddolen at cadeirydd@clonc.co.uk

Côr Cardi-gân

Ar ddechrau blwyddyn arall yng nghalendr y côr, braf oedd croesawu sawl wyneb newydd i ymuno â ni ddechrau mis Medi. Wedi llwyddiant yn Eisteddfod Castellnewydd Emlyn ddechrau'r haf, a hwyl yn canu yng Ngŵyl Gobiau Aberaeron, daeth yr aelodau yn ôl at ei gilydd yn y Gwndwn i ddechrau ar flwyddyn arall brysur gyda'r côr. Buom yn canu mewn cymanfa arbennig yn Eglwys Aberaeron ar nos Sul 26 Medi, sef cymanfa o emynau newydd Gerald Morgan. Cafwyd noson hwylus iawn, ac roedd hi'n braf clywed yr hanes y tu ôl i'r emynau gan y cyfansoddwr ei hun.

Mae'r digwyddiadau sydd ar y gweill gyda ni yn cynnwys canu yng Nghyngerdd Agoriadol Cwpan Ryder yn Stadiwm y Mileniwm, cynnal noson lawen yn Neuadd Ciliau Aeron ar 15 Hydref i godi arian i Cystic Fibrosis, a chanu yng Ngwesty'r Plu, Aberaeron ar 13 Tachwedd.

Etholwyd swyddogion newydd i'r côr hefyd, a dyma nhw: Cadeirydd - John Penri; Is-gadeirydd - Dwyndwen Lloyd Evans; Ysgrifennydd - Nia Davies; Trysorydd - Catrin Jones; Gohebydd y Wasg - Lowri Jones; Arweinydd - Siw Jones; Cyfeilydd - Heledd Williams; Is-gyfeilydd - Carys Mai.

Mae'r côr bob amser yn awyddus i groesawu rhagor o aelodau newydd i'n plith, felly os oes awydd gennych ymuno yn yr hwyl (a'r canu!), dewch i'r Gwndwn ar gampws Theatr Felin-fach ar nos Fercher am 8!



D & C Rallying



Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664

CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

**Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT**

*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN



Gwyn Lewis

Cyf

Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.

43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau

*'Bwyd cartref ar gyfer
pob achlysur'*

* Cacenau pen-blwydd gyda llun
(ffotograff)

* Bwffe mawr neu fach

* Dantethion i de

* Pwdinau

* Arlwyd ar gyfer pob achlysur



Sirian Davies, Coedlannau

Fach, Cwrtnewydd,

01570 434 243

07815 962 045



Gall y driniaeth yma eich helpu, os
ydych yn dioddef o'r canlynol:

* Blinder / diffyg egni

* Meigrin

* Sciatica

* Irritable Bowel Syndrome

* Menstrual problems

* a mwy

**Os am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Carol Rees**

01545 590164

07929 559561

Tim Jones



Ffotograffydd

Llainwen, Rhodfa Glynhebog

Llanbedr Pont Steffan

01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?

Mae gennym arbenigedd cyfreithiol
mewn sawl maes, megis:-

1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIAINT,
3. TRETHT ETIFEDDIAETH A
MODD I'W LEIHU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.

Os hoffech fwy o wybodaeth
mae croeso i chi gysylltu â ni.

**Arnold Davies
Vincent Evans**

33 Stryd Fawr, Llanbedr


☎ 01570 422517 ☎ 01570 423244

Lle aeth pawb?



Llun tîm rygbi Llanbedr Pont Steffan a dynnwyd tua diwedd yr wythdegau. Cefn: Kevin Doyle, Gerwyn Evans, Emyr Jones, Alec Page, John Morgan, Melfyn Jenkins, Dai Charles Evans, Gareth Davies, Eirian Jones, Jeff Evans, Richard Morgan, Dai Evans, James Thomas, Tudor Davies, Selwyn Walter. Canol: Y Cyng Dorothy Williams. Blaen: Brian Evans, Ieuan Jones, Emyr Jacobs, Arwyn Jones, Hefin Williams (Capten), Gareth Thomas, Irwel Evans, Ian Barnard, Aubrey Morris.

Colofn y C.Ff.I.



C.Ff.I. Ceredigion

Mae mis Medi'n nodi dechrau blwyddyn arall yng nghanlendr prysur C.Ff.I. Ceredigion a'r ugain clwb yn y sir. Ond cyn hynny, bu'r aelodau'n brysur yn ystod yr haf yn hyrwyddo'r mudiad a chystadlu mewn sioeau lleol, yn ogystal â chystadlu yn nhreialon cŵn defaid y sir. Llongyfarchiadau i Aled Llŷr o Dalybont am ddod yn fuddugol yn adran y C.Ff.I.

Hyfforddiant

Y digwyddiadau cyntaf ar ddechrau Medi oedd y cyrsiau swyddogion, a gynhaliwyd yn nhri lleoliad ar draws y sir. Mae'r cyrsiau hyn yn rhan o'r amryw o gyfleoedd hyfforddiant a gynigir gan C.Ff.I. Ceredigion, ac meant yn hyfforddi swyddogion newydd clybiau ynghylch eu rôl a'r pethau y dylent gofio wrth gyflawni eu swydd.

Pwyllgorau

Wedyn, fel yr arfer ganol mis Medi, aeth criw o'r sir mewn bws yr holl ffordd i Wrecsam i gefnogi Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol C.Ff.I. Cymru. Roedd yn ddiwrnod nodweddiadol i Geredigion, gan i Enfys Evans, cyn-aelod o glwb Llanddeiniol, gael ei hethol yn Gadeirydd ar y mudiad ar lefel Cymru. Roedd criw da o aelodau a ffrindiau C.Ff.I. Ceredigion yn falch iawn o fod yn y cyfarfod hwnnw, i weld un o ferched Ceredigion yn ben ar G.Ff.I. Cymru! Llongyfarchiadau calonnog i ti Enfys, a phob lwc yn dy flwyddyn. Yr elusen y mae Enfys wedi'i dewis fel elusen C.Ff.I. Cymru am eleni yw Mind Cymru - elusen sy'n codi ymwybyddiaeth am iechyd meddwl.

Bu dau reswm i ddathlu ar y nos Sadwrn, wrth i Geredigion ennill yr arad, neu dlws y Western Mail, am y nifer uchaf o bwyntiau yng ngweithgareddau'r mudiad yn ystod y flwyddyn. Llongyfarchiadau i bob aelod yn y sir am gyfrannu at y wobwr hon!

Mae'n gyfnod prysur o bwyllgora ym mis Medi, oherwydd cynhelir Cyfarfod Blynnyddol y Sir, yn ogystal â'r is-bwyllgorau yn ystod y mis. Cafwyd sawl trafodaeth ddiddorol iawn yn y Cyfarfod Blynnyddol, lle cafwyd barn yr aelodau ar sut i ddenu a chadw aelodau dros 18 yn y mudiad, ac ail-strwythuro cwpan Gwynne Davies, sef y cwpan am y clwb gyda'r nifer uchaf o farciau ar hyd y flwyddyn. Dyma swyddogion newydd C.Ff.I. Ceredigion am 2010/11: Llywydd: Bronwen Morgan; Is-lywydd: Eifion Morgans; Cadeirydd: Alwen Thomas; Is-gadeirydd: Manon Richards; Cadeirydd yr Is-bwyllgor Gweithgareddau: Eleri James; Cadeirydd yr Is-bwyllgor Fforwm Ieuenctid: Esyllt Ellis-Jones. Nid yw swyddogion yr Is-bwyllgor Materion Gwledig wedi'u penodi hyd yn hyn.

Clwb 200

Enillwyr mis Awst: 1af – Dennis Davies, Esgerddedwydd, Pontsian, Llandysul; 2il – Ian Evans, Esgaermaen, Llanfari Clydogau, Llanbedr; 3ydd – Mari James, Brynhyfryd, New Inn, Pencader, Sir Gâr.

Enillwyr mis Medi: 1af – Manon Richards, Lowtre, Llanwnnen, Llanbedr; 2il – C.Ff.I. Talybont; 3ydd – T.R. & M.E.Davies.

Digwyddiadau ar gyfer eich dyddiaduron

7 ac 8 Hydref: Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg, Theatr Felin-fach. 17 Hydref: Pwyllgor trefnu Splash a'r digwyddiadau dathlu pen-blwydd y Sir yn 70, Tafarn Dyffryn Aeron. 28 a 30 Hydref: Eisteddfod y Sir, Llanbedr. 8 Tachwedd: Cystadleuaeth cwis y sir. 14 Tachwedd: Diwrnod dewis aelodau i fynd ar deithiau tramor C.Ff.I. Cymru, Llanfair-ym-Muallt

Pob lwc i bawb sy'n cynrychioli'r sir ym mhenwythnos cystadlaethau'r mudiad yn genedlaethol ganol Hydref!

Drefach a Llanwenog

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth cyfres tripiâu'r haf i ben ym mis Medi wrth i'r aelodau fynd am daith i'r canolbarth. Aros yng nghanolfan arddio yn y Trallwng tua canol dydd, ac yna 'mlaen i weld golygfeydd hyfryd tua Llyn Fyrnwy. Cafwyd tipyn o hanes adeiladu'r argae, a fel y dymchwelwyd pentre Llanwddyn cyn boddi'r dyffryn. Codwyd pentre newydd i drigolion Llanwddyn ychydig islaw'r argae.

Teithio nôl drwy ddyffryn Mawddwy ac i Dalybont ar gyfer swper, a phawb wedi mwynhau'r diwrnod.

Bydd tymor y gaeaf yn cychwyn ar Hydref 13eg, yr aelodau'n cwrdd yng Nghapel y Cwm, Cwmsychbant am 1.30 o'r gloch ar gyfer y Cyfarfod Blynyddol. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno â'r Gymdeithas.

Bethel a Brynteg

Cynhelir CyRDDau Diolchgarwch y ddau gapel fel a ganlyn: -

Bethel – Nos Fawrth, Hydref 5ed am 7 yh, - Y Parch. Guto Prys ap Gwynfor yn pregethu.

Brynteg – Nos Fawrth, Hydref 13eg am 7yh, - y Parch. John Gwilym Jones yn pregethu.

Croeso cynnes i bawb i'r ddwy oedfa.

Diolch

Dymuna Mair, Menna, Daff ac Evan a'u teuluoedd, ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli merch a chwaer annwyl, sef Sara, Bryngwenog, Pen y Bryn, Llambod (gynt Abertegan a Min y Llan). Gwerthfawrogir yn fawr y cyfraniadau hael o £915 a dderbyniwyd er côf am Sara ac a drosglwyddwyd i 'Ymchwil Epilepsy'.

Eglwys Santes Gwenog.

Yng nghyfarfod Cyngor Plwyf yr Eglwys (P.C.C.) a gadeiriwyd gan y ficer, y Parch. Suzie Bale, trefnwyd y gweithgareddau canlynol:-

Cwrdd Diolchgarwch, Nos Lun Hydref y 4ydd am 7y.h. Edrychwn ymlaen i groesawu ein offeiriad gwâdd sef y Parch Dafydd Aeron. Yn dilyn, cynhelir swper cynhaeaf yn yr 'Eglwys Fach'. Estynnwn groeso cynnes i bawb i ymuno gyda ni, ac os y dymunir, medrweh archebu swper sy'n cynnwys dau gwr a diod drwy gysylltu â Mrs Nia Evans (Warden), neu un o'r aelodau am bris o £10.

Prynhawn Dydd Mercher y 6ed o Hydref bydd plant Ysgol Llanwenog yn cynnal Gwasanaeth Diolchgarwch, ac eleni bydd C.Ff. I. Llanwenog yn cynnal eu Cwrdd Diolchgarwch hwythau ar yr 18fed o Hydref. Dewch yn llw i gefnogi ein plant a'n pobl ifanc.

Bydd siawns i bawb gael 'Paned a Chlonc' yn y 'Te Fictorianaid' yn yr Eglwys ar y 13eg o Dachwedd o 3.00 – 5.00 y.p. Bydd yno stondin gacennau a nwyddau, a siawns i brynu calendr yn cynnwys lluniau o'r gosodiadau blodeuog a welwyd yn yr Ŵyl Flodau gynhaliwyd ym mis Awst. Diolch i Mrs Liz Tipping am dynnu'r lluniau a pharatoi'r calendr. Byddwn hefyd yn tynnu'r Raffl Fawr. Bydd cyfraniad o'r Raffl yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

Byddwn yn cynnal ein gwasanaeth 'Naw Llith a Charol' ar y 19fed o Ragfyr am 3.00 y.p. Mwy o fanylion yn rhifyn nesaf 'Clonc'

Adref

Yr ydym yn falch i weld Mrs Viria Jones, Gellideg, adref o'r ysbyty wedi derbyn llawdriniaeth. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi.


Cofiw'n hefyd am bawb sydd yn anhwylyd neu'n galaru wedi colli anwyliad.

Ysgol Gynradd Gymorthedig Wirfoddol Llanwenog

Bu naw o ferched o'r Adran Iau yn brysur iawn yn ystod gwyliau haf eleni yn paratoi i ddawnsio dawns cyfarch gogyfer â bardd y goron ar gadair yn Eisteddfod Rhys Thomas James, Pantyfedwen, Llambod. Gwnaeth Katie Brown, Lowri Davies, Sioned Fflur Davies, Nancy Doyle, Ffion Evans, Charlotte Giles, Robyn Giles, Carys Jones, Gwen Thomas perfformio'r ddawns yn raenus gyda mwynhad a phleser yn amlwg ar eu wyneb. Diolch i'r Pwyllgor am ofyn i ni i gymryd rhan yn y ddwy seremoni. Dymuniadau gorau i Miss Liza Williams sydd wedi cychwyn ar waith meithrinfa gofâl dydd, sef, Sêr Bach. Diolch iddi am flynyddoedd o gefnogaeth ac ymrwymiad didwyll i'r Ysgol. Hoffwn hefyd llongyfarch Cylch Meithrin Gwenog am ennill Cylch Rhagorol yn ystod gwyliau'r Haf. Edrychwn ymlaen y tymor yma i gyd-weithio yn agos iawn â chi eto wrth gynllunio a pharatoi gweithgareddau amrywiol i'r plantos bach. Dymuniadau gorau hefyd i Miss Lowri Wilson a fu gyda ni'n cynorthwyo am gyfnod yn yr Ysgol, wrth iddi ddechrau ar gwrsg dysgu Uwchradd ym Mhrifysgol Aberystwyth. Yn ystod gwyliau'r Haf cafwyd diwrnod arbennig iawn i ni fel Ysgol wrth i Miss Whitfield briodi Mr Dafydd Mills, sef mab Mrs L. Mills. Hoffai Llywodraethwyr, Rhieni a ffrindiau'r Ysgol ddymuno'n dda iawn i chi ac hefyd hoffwn ddymuno pob hapusrwydd ac iechyd i chi yn eich cartref newydd Glennydd, Llanwnnen. Ar fore Llun, 13eg o Fedi ganwyd ŵyr i Ms Morgan, sef, Ethan Lee Arfon Rees. Dymuniadau gorau i chi fel teulu



Dyma rai o ddisgyblion Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Llanwenog yn dangos eu heitemau o waith celf a llawysgrifen a enillodd wobrau yn y sioeau lleol yng Nghwmsychbant a Gorsgoch dros yr haf.



Carwyn Rosser, Gwel-Cwm-Teifi, Brynteg gyda'i darian a enillodd mewn rasys beic modur yn Bancyfelin dros dymor yr haf.

ac yn enwedig i'r rhieni newydd Nia a Mark. Ar ddechrau blwyddyn Addysg newydd hoffwn groesawu dau ddisgybl newydd i'r Ysgol sef, Amy Evans a George Labram. Hyderwn y byddwch yn hapus iawn yn ein plith. Croeso cynnes i aelodau staff newydd i'n teulu, sef, Mr Arwel Evans – Athro Cynradd, ac i Mrs Angharad Hull - Cynorthwy-ydd Cyfnod Sylfaen. Ers i Mrs Nia Evans i ddod i'r Ysgol mae'r plant wedi derbyn gwersi coginio yn gyson ac i ddatblygu ar y cyfleoedd yma bydd plant o'r Adran Iau yn paratoi a chynnal swper - tri chwrs - nos Fawrth 21ain o Fedi, dan arweiniad Mrs Gill Jones, Swyddog Datblygu Bwydlen Riseitau i Ysgolion Ceredigion a Ms. Eleri Davies, Cogyddes yr Ysgol.

Cylch Meithrin Gwenog

Hoffai Pwyllgor a rhieni plant Cylch Gwenog ddiolch yn fawr iawn i Miss Liza Williams am arwain y Cylch ac i Miss Mair Jenkins am lwyddo i ennill Cylch Rhagorol yn ystod tymor yr Haf eleni. Hoffwn ddymuno yn dda iawn i Miss Liza Williams wrth iddi sefydlu busnes 'Sêr Bach'. Teimlwn yn ffodus iawn ein bod wedi cael arweinydd mor broffesiynol a chydwybodol yn ystod

y blynyddoedd a fu. Fel Pwyllgor hoffwn llongyfarch Ms Mair Jenkins am ei phenodi'n Arweinydd newydd i Gylch Meithrin Gwenog ac i Mrs Abigail Gregson am dderbyn y swydd fel Cynorthwy-ydd i'r Cylch. Ar ddechrau'r tymor newydd estynnwn groeso cynnes i blant newydd. Rydym wrthi yn newid un o'n tai bach twt i garej trwsio ceir! Bore dydd Sadwrn, Medi 18fed cawsom daith gerdded o Ysgol Llanwenog i Frynteg a nôl i'r ysgol i gael picnic. Roeddwn yn ffodus iawn o gael diwrnod sych a braf i gynnal y digwyddiad yn llwyddiannus. Diolch i bawb a wnaeth ein cefnogi ar y dydd neu wrth noddi'r plant i gerdded. Bore dydd Mercher, 6ed o Hydref, bydd gennym stondin gacennau tu allan i ddrws y Cylch Meithrin a byddwn hefyd yn tynnu'r 'Rhif Lwcus'. Cefnogwch yn llw!

Ers mis Awst eleni rydym wedi agor ein meithrinfa gofâl dydd i blant o dri mis oed i bedair mlwydd oed. Enw'r busnes yw 'Sêr Bach' ac yn sgîl derbyn archwyliad manwl gan swyddog o asiantaeth AGCC agorwyd ein drysau yn swyddogol diwedd mis Awst. Rydym ar agor o 8 y bore tan 6 o'r gloch y nos o ddydd Llun tan ddydd Gwener. Rydym yn cynnig gofâl sy'n hollol

Drefach a Llanwenog

ddwyieithog ble mae'r plant yn cael cyfleoedd i ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau megis chwarae, paentio a chanu a llawer mwy. Hefyd, yn ystod gwyliau hanner tymor gobeithiwn ddarparu 'Clwb Hwyl' i blant rhwng 5 -11 mlwydd oed.

Cylch Meithrin Drefach.

Croeso cynnes i dri sydd newydd ymuno â ni yn ddiweddar, sef Sara Davies, Lowri Rees ac Osian James-Young.

Cafwyd noson hapus a llwyddiannus iawn mewn noson Bingo yn Nhafarn Cefn Hafod, Gorsgoch yn ddiweddar. Diolch am bob cefnogaeth yn arbennig i Geraint ac Eiddwen Hatcher am fenthyg yr ystafell am ddim ac i Mrs Caroline Davies, y Fron am alw'r rhifau allan.

Diolch

Dymuna Siân a Chris, 'Gwelfryn' ddiolch o galon am yr holl gardiau, anrhegion ac arian dderbyniwyd ganddynt ar achlysur genedigaeth eu mab 'Daniel Gethin' ar y 14eg o Fedi.

llwyddiant i Frawd a Chwaer.

Mae'n dda gweld ein pobl ifanc yn llwyddo. Mae Dafydd Rhys Thomas, Llechwedd wedi cael llwyddiant ysgubol ym myd trin gwallt. Disgrifir ef fel un o sêr y dyfodol yn y maes yma. Mewn cystadleuaeth dros Brydain, llwyddodd Rhys i ddod yn un o saith arbenigwr dan 30 oed i gynrychioli Prydain fel 'Steilydd Proffesiynol'. Mae'r cwmni 'Wella Proffesiynol' yn cymeryd y criw o dan ei hadain, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ym maes creadigrwydd ac arbenigedd. Gwelir Rhys yn aml ar raglenni S4C yn ymdrin a 'steil', ac mae'n gweithio i gwmni 'Ken Picton' yng Nghaerdydd. Pythefnos yn ôl roedd Rhys yn creu steiliau gwallt i'r modelau yn Sioe Ffasiwn Llundain.

Mae Rhian ei chwaer sy'n arbenigo yn chwarae golff, yn ddiwyd yr wythnos yma gyda gweith-gareddau'r Ryder Cup. Mae'n modeli mewn arddangosfa ffasiwn yn y 'Celtic Manor' i wragaedd a theuluoedd y chwaraewyr, yn ychwanegol i gynorthwyo ym maes hysbysebu'r ganolfan.

Diolch

Dymuna Gareth Davies, Maesglas ddiolch i bawb am y consym, galwadau ffôn a'r ymweliadau a gafodd yn dilyn ei anffawd yn ystod mis Awst.

Genedigaeth

Llongyfrachiadau i Sian a Chris, Gwelfryn ar enedigaeth mab bach, Gethin yn ystod mis Medi. Wyr cyntaf i Ieuan a Jane Jones,

Pwllbilwg. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

C.Ff.I. Llanwenog

Croesawyd pawb yn ôl i'r clwb ar ddechrau mis Medi ar ôl saib dros yr haf. Braff hefyd oedd croesawu criw o aelodau newydd i'n plith. Dechreuwyd y flwyddyn yn Ysgol Cwrtnewydd gyda noson yr arweinyddion. Bu pawb yn ymuno mewn nifer o wahanol gemau a chafodd pob un llawer o hwyl a sbri. Diolch i'r arweinyddion am roi o'u hamser i'n diddanu.

Cafwyd noson o chwarae 'Jenga a Thwister' yn Ysgol Llanwenog, rwy'n siwr fod pawb wedi mwynhau, rai ohonom mwy hyblyg na'n gilydd ar y 'Twister'!!

Aethom ar drip i wib gartio yn Llwyneclyn, noson ffantastig, o'r ifanc i'r hyn wedi joio mas draw, ambell un yn well gyrrwr na'r llall!!

Pawb yn crafu eu pennau yn Ysgol Llanwenog mewn noson o gwis gan Emyr a Gareth Jones. Rwy'n siwr fod pawb wedi dysgu dipyn am wahanol bynciau. Diolch i bawb a fu yn ein helpu yn ystod y mis hwn.

Os hoffech gynorthwyo'r gwirfoddolwyr gyda'r gwaith o gynhyrchu'r papur hwn, croeso i chi gysylltu ag un o'r bwrdd busnes.

Mae CLONC ar werth yn:
Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambled
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambled
Eryl Jones, Llambled
Garej Checkpoint, Harford
Garej LFS Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Siop Gomerian, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambled
Lomax, Llambled
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llanybi
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tafarn Glanyrafon, Talgarreg
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

a thrwy danysgrifio.
Cysylltwch â:
ysgrifennydd@clonc.co.uk

Cwrtnewydd



Cyflwynwyd sic i Ganolfan Ddydd Hafan Deg (uchod) a Uned Penderfyniadau Clinigol, Ysbyty Tywysog Phillip, Llanelli gan Mrs Morwen Thomas er cof am ei mam Mrs Gertie Walters.

Diolch

Dymuna Ray Evans, Brynhogfaen, ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion a chyfarhigion dderbyniodd ar achlysur ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Gwerthfawrogwyd y cyfan yn fawr.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu'r diweddar Mrs Marian Evans, Troed-y-rhiw gynt a fu farw yn ystod y mis. Bu'r angladd yn Capel y Bryn ac yno rhoddwyd ei gweddillion ei orffwys.

Ysgol Cwrtnewydd

Fe ddaeth gwyliau'r haf i ben a daeth ddechrau ar flwyddyn newydd yn yr ysgol. Yn ymuno â ni yn yr ysgol mae Phoebe, Luned, Jenna ac Ethan. Erbyn hyn mae'r pedwar wedi gwneud nifer o ffrindiau newydd ac wedi dod i adnabod yr ysgol yn dda. Rydym hefyd yn croesawu Mrs Sirian Davies i'r staff, ei rôl yw cefnogi darllen y plant.

Er dim ond ychydig wythnosau sydd wedi mynd heibio mai wedi bod yn brysor iawn yma. Llwyddodd tîm rygbi blynnyddoedd pump a chwech yr ysgol i ennill pump o'u chwech gêm yng ngŵyl rygbi Llanbedr Pont Steffan yn diweddar.

Etholwyd cyngor newydd yr ysgol ac yn dilyn hyn fe fydd Briallt Williams wrth y llyw fel cadeirydd am y flwyddyn, mae enwau gweddill y swyddogion ar wefan yr ysgol. Ar hyn o bryd maent wedi trefnu i gynnal gweithgareddau codi arian ar gyfer achosion dyngarol yn dilyn dilyw Pacistan.

Daeth clwb Cyw draw i'r ysgol i fflmio cyfres o raglenni a fydd yn cael darlledu ar Cyw yn y misoedd nesaf. Braff oedd croesawu Gareth a'i griw i'r ysgol.

Cychwynwyd menter newydd yn yr ysgol wrth i blant blynnyddoedd pump a chwech agor siop llysiau a ffrywthau. Fel rhan o gynllun COOP fe fydd y disgyblion yn derbyn archebion gan deuluoedd a chymuned yr ysgol ac yna yn dosbarthu llysiau a ffrwythau. Os

oes gennych ddi-ddordeb mewn archebu pecynnau am £3 cysylltwch â'r ysgol.

Byddwn yn cynnal ein cwrdd diolchgarwch yn yr ysgol ar brynhawn yr 21ain o Hydref am 1.30. Yn annerch y plant fe fydd y Parchedig Wyn Thomas. Cofiwch fod croeso mawr i bawb.

Mae Ffion Medi o Theatr Felinfach

yn ymweld a ni wythnosol i gael sesiynau actio. Mae pawb yn mwynhau'r prfoiad yn fawr iawn.

Cafwyd archwyliad gan aelodau o Eco-Ysgolion, bu rhai i'r plant ddweud am eu prosiectau a'u gwaith ac yna dangos eu gwaith o amgylch yr ysgol. Braff yw cael cofnodi ein bod erbyn hyn yn mynd i dderbyn baner werdd Eco-Ysgolion.

Clwb 100 Medi: 1af – Lloyd Harries, Esgairfryn, Meidrim; 2ail – Cerys Pollock, Brynmeddyg, Cwmsychpant; 3ydd – Ray Jenkins, Beiligwyn, Capel Dewi; 4ydd – Rosie Davies, Croesmaen, Llanfihangel.

Diolch

Dymuna teulu'r diweddar Mrs Gertie Walters, Bryneryl, Cribyn ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn gardiau, galwadau ffôn a rhoddion, yn ystod eu profedigaeth o golli un annwyl iawn iddynt.

Diwrnod Agored

Yn ystod mis Medi bu prynhawn agored yn Efail y Gof Cwrtnewydd a braff oedd gweld yr Efail ar ei newydd wedd. Daeth tyrfa ynghyd i fwynhau'r wledd i'r llygaid a diolch i Peter Jenkins am ddangos yr Efail i'r cyhoedd. Roedd llawer yn cael atgofion o gyfnod ei Dad y diweddar Griff Jenkins yn yr Efail.



Charlotte Saunders, enillydd y drydedd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru.

C.Ff.I. Cwmann

Gyda chalendr y C.Ff.I wedi dechrau ar gyfer 2010/11 cafwyd noson agoriadol lwyddiannus iawn ar nos Wener y 3ydd o Fedi, gyda nifer o aelodau newydd yn ymuno â ni am y tro cyntaf. Noson o chwarae rownderi, tynnu rhaff a BBQ ar gae'r pentref a gafwyd. Braf oedd cael cefnogaeth rhieni a ffrindiau. Diolch yn arbennig i bawb fuodd yn paratoi a threfnu ar ein cyfer.

Y nos Iau canlynol cafwyd ymweliad â fferm Llether Bledrig, Rhydcymerau drwy garedigrwydd Mr a Mrs Geraint Thomas a'r teulu. Cafwyd taith o amgylch y fferm a'r caeau a gwelwyd tipyn o'r stoc a chafwyd hanes y fferm a'r teulu. Diolch unwaith eto i'r teulu am eu parodrwydd a'r croeso cynnes a gafwyd.

Gyda'r flwyddyn newydd wedi dechrau roedd hi'n amser trafod rhaglen yr eisteddfod. Braf yw cael dweud fod gan C.Ff.I Cwmann rhaglen lawn ar gyfer yr eisteddfod eleni ac mae'r aelodau eisoes yn brysur yn ymarfer.

Nos Wener y 25ain fe fydd C.Ff.I Cwmann yn cwrdd yn y neuadd am 7.30y.h i baratoi ac ymarfer ar gyfer yr eisteddfod.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Osian Jones, Araul am basio 'Step 1' gydag anrhydedd yn ddiweddar o dan nawdd y 'London College of Music.'

Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Dylan Williams, Wyngarth ar ei ddyweddïad â Lucy Whale o ardal Caerloyw. Mae'r ddau yn byw yn y Barri ar hyn o bryd.

Diolch

Dymuna Mrs Terris Williams a Mrs Jenny Vaughan ddiolch i rieni a staff Ysgol Carreg Hirfaen a gyfrannodd mor hael ar achlysur eu hymadawiad. Bydd y ddwy ohonynt yn gweld eisiau'r rhieni a'r staff yn fawr iawn ond yn fwy na dim yn gweld eisiau cymdeithas y plant.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Meirianwen Jones-Williams, Cysgod y Pin, Cwmann ar ennill gradd B.A. Anrhydedd mewn Busnes o Brifysgol Morgannwg.

Llongyfarchiadau hefyd i'r brawd, Eurion ar ei ganlyniadau gwych yn arholiadau Safon Uwch dros yr Haf.

Pob dymuniad da iddo wrth gychwyn ar ei gwrs gradd yn y Brifysgol yn Aberystwyth ac i Meirianwen hithau gyda'i gyrfa yn y dyfodol.

Ffair Ram

Cynhaliwyd y Ffair ar y 11eg Medi 2010. Cafwyd diwrnod llwyddiannus iawn o dan lywyddiaeth Mrs Iona Reeves.

Cafwyd cystadlu brwd ym mhob cystadleuaeth ac arddangosfa arbennig o dda o hen beiriannau. Codwyd swm sylweddol tuag at Glefyd Niwronau Motor.

Dyma enillwyr y Gwobrau: Adran Fferm - Gareth Russell, Adran CFfI - Iestyn Russell, Llysiau a Ffrwythau - Tony Hall, Blodau - Gwyn Williams, Coginio - Gwen Jones, Cyffeithiau / Gwinoedd - Joyce Williams, Dosbarth Derbyn - Osian Roberts, Blwyddyn 1 a 2 - Gwennan Rowcliffe, Blwyddyn 3 a 4 - Beca Roberts, Blwyddyn 5 a 6 - Mari Lewis, Ysgol Uwchradd - Beca Creamer, Arlunwaith - Beca Creamer, Ffotos - Harold Williams, Crefftiau Cefn Gwlad - Gwyn Williams, Gwaith Llaw - Dilys Godfrey, Adran y Defaid - Eira Price, Cwpan Sialens Felindre Uchaf - Tony Hall, Cwpan Sialens Felindre Isaf - Eira Price, Cwpan Sialens Wyn a Mary - Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Eric Harries - Carwyn Lewis, Cwpan Sialens Teulu Hendai - Eira Price, Cwpan Sialens Dalgety - Carwyn Lewis.

Hoffai'r swyddogion ddiolch i bawb a fu'n helpu ac am bob cefnogaeth.

Sefydliad y Merched

Cynhaliwyd ein cyfarfod misol ar y 4ydd o Fedi. Croesawodd Elma bawb nôl ar ôl y gwyliau a dymunodd wellhad buan i Glesni. Dywedodd fod yn braf i weld Helena nôl gyda ni ar ôl ei llawdriniaeth. Yna aeth ymlaen ar nodyn trist iawn i gofio am Llinos a fu farw yn ystod mis Awst. Roedd wedi bod yn aelod gweithgar a ffyddlon i'r mudiad ers rhai blynyddoedd bellach, cafwyd munud o dawelwch. Cydymdeimlodd a Malcolm a Roesmary a'i brawd Alun ac Elsi yn ei colled a'i hiraeth. Ar ddechrau mis Medi aeth rhai o'r aelodau ar daith gerdded o amgylch Llambled, roedd pawb wedi mwynhau a Mudiad Sir Gar oedd wedi ei drefnu. Croesawodd Elma ein gwraig wadd Mrs Jennie Organ o Rhos Llangeler a ddaeth atom ar fyr rybudd. Ffermio gyda ei phriod y mae ond wedi diddori mewn Pewter ac un neu ddau o ddiddordebau arall. Mi enillodd lu a dwy arall o Llangeler y gystadleuaeth y (Rosebowl) yn y Sioe Frenhinol Llanfawr eleni. Diddorol iawn oedd ei gwyllo yn gwneud gwahanol bethau allan o bewter. Roedd ei waith yn effeithiol ac yn gwyrain iawn a llawer o'r aelodau wedi prynu. Diolchodd Morfudd iddi mewn geiriau pwrpasol iawn. Enillwyd yr raffl gan Gwyneth ac Helena.

Clwb 125

Awst 1. Mr. Emyr Jones, Teifi Forge, Cwmann, 40, 2. Mrs. Llinos Jones, Araul, Cwmann, 17, 3. Miss. Kelly James, 15 Brollan, Llanwnen,



Parti Corisma yn ennill yr ensemble llesisiol yn Eisteddfod Llambled.



Cafwyd gwasanaeth arbennig yng Nghapel Crugybar ar y 12fed o Fedi i gydnabod deugain mlynedd o weinidogaeth y Parch. D.Huw Roberts. Wedi'r gwasanaeth cyflwynodd Esme Jones gair o deyrnged i Mr. a Mrs. Roberts. Cafwyd pennillion i'r cyfarch gan Llinos Davies a Silyn Thomas. Cyflwynwyd rhodd i Mr. Roberts a thusw o flodau i Mrs. Roberts ar ran yr ofalaeth gan Betty Jones. Diolchodd y Parch. Huw Roberts i'r ofalaeth am eu caredigrwydd. Mrs. Brenda Morgan fu'n gwasanaethu wrth yr organ a Mr. Ifor Jones yn arwain y gân. Wedi'r oedfa cafodd pawb gyfle i fwynhau'r lluniaeth a baratowyd gan wragedd yr eglwys.

27, 4. Mr. Stanley Evans, Coed-y-waun, Parcyrrhos, 107, 5. Mr. Edwin Harries, Nantyglyn, Cwmann, 111, 6. Mr. Irfon Williams, Bryneiddig, Cwmann, 116, 7. Mr. Dennis Gilbert, 48 Heol Hathren, Cwmann, 142, 8. Mrs. Eirwen Davies, Ffawydd, Cwmann, 83, 9. Mrs. Phyllis Jones, Cilgell Isaf, Cwmann, 77, 10. Mrs. Lena Williams, 39 Heol Hathren, Cwmann, 79.

Medi 1. Mr. Wayne Evans, Annwylfan, Llanllwni, 82, 2. Mrs. Glesni Thomas, 1 Heol Hathren, Cwmann, 57, 3. Mr. Brian Lloyd, Blaenrhysglog, Ffarmers, 10, 4. Mr. Julian Evans, Felinfach Farm, Cwmann, 113, 5. Mrs. Jean Davies, 2 Heol-y-maes, Pencarreg, 58, 6. Mrs. Bethan Lewis, 18 Heol Hathren, Cwmann, 54, 7. Stephanie James, 15 Bro Llawn, Llanwnen, 141, 8. Mrs. Ann Davies, Brynteify, Cwmann, 56, 9. Mr. Dafydd Lloyd, Brynywawr, Pumsaint, 96, 10. Mr. Edwin Harries, 8 Nantyglyn, Cwmann, 47.

Priodas

Llongyfarchiadau i Rhian Jones

Y Glyn a Ben Morris ar achlysur eu priodas yng nghapel Yr Erw, Cellan ar ddechrau mis Medi. Pob dymuniad da iddynt dau.



Mae Helen Davies o Gwmann yn mynd i redeg yr Hanner Marathon yn Caerdydd ar y 17eg o Hydref i godi arian i 'Diabetes UK Cymru'. Os ydych am ei noddi cysylltwch a hi ar 07535712875 neu drwy fynd mewn i J.H.Roberts. Hoffei Helen ddiolch i bawb sydd wedi i noddi hyd yn hyn.

Cwmsychpant

Swydd Newydd

Llongyfarchiadau i Mair Potter, Rhoslwyn ar ei phenodiad yn Bennaeth Cysylltiol i Ysgolion yn ardal Llandysul. Dechreuodd ar ei gwaith nôl ar ddechrau'r flwyddyn addysgiadol newydd a phob dymuniad da i chwi.

Gor-ŵyr newydd

Llongyfarchiadau i Mrs Olive Davies, Arosfa ar gael gôr ŵyr newydd lawr yng Nghaerdydd sef mab bach Gruffydd Daniel i'w ŵyr Marc a'i wraig Elin, a chwaer fach i Efa.

Priodas Ruddem

Dathlodd Eryl a Mary Price, Esgereion eu Priodas Ruddem yn ystod mis Medi. Iechyd da i chwi eich dau am flynyddoedd lawer.

Cyrrddau Diolchgarwch

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel-y-Cwm ar nos Iau, Hydref 21ain am 7:30y.h. Pregethwr gwadd fydd Parch Alun-Wyn Dafis, Cei Newydd.

Hefyd, cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Ysgol Sul Capel-y-Cwm ar brynhawn dydd Sul, Hydref 24ain am 3:00y.p. Croeso cynnes i bawb i'r ddwy oedfa.

Noson Bingo

Cynhelir Noson Bingo yn Festri Capel-y-Cwm nos Lun, Hydref 25ain am 7:30y.h. Elw tuag at yr Ysgol Sul. Croeso cynnes i bawb.

Gorsgoch

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys gydag Eirwen a Gwilym Evans a'r teulu, Gwynfryn yn dilyn marwolaeth ei brawd Dewi Herbert oedd nawr yn byw yn Exeter ond gynt o Plasbach, Gorsgoch.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau mawr i Cennydd a Claire, Gwawrfryn ar enedigaeth bachgen bach, sef Tomos Cai, brawd bach i Dion John. Hefyd i Graham a Katrina Parry ar enedigaeth merch fach, sef Cassandram, chwaer fach i Jason. Pob hapusrwydd i'r ddau deulu am y dyfodol.

Gwellhad Buan

Gwellhad buan i Geraint Hatcher, Cefn-hafod ar ôl ei lawdriniaeth yn ddiweddar. Falch clywed dy fod adref ac yn gwella'n dda. Gobeithio dy weld tu ôl y bar yn fuan!

Bore Coffi Macmillan

Hoffai Dr David & Mrs Margaret Rowson, Min-yGors ddiolch o galon am gefnogaeth y gymuned yn ystod eu bore coffi yn ddiweddar. Llwyddwyd i godi swm o £105.00. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Taith Gerdded

Nos Sadwrn, Medi 18fed cafwyd noson o gerdded fferm drwy garedigrwydd Margaret Dalton o Gelligarneddau i fferm Brynblodau lle cafwyd noson o Gaws a Gwin yng nghartref George a Dinah Gibbons.

Cafwyd fwrdd o gacennau, bric a brac a thombola gyda raffl a enillwyd gan Rosie Gibbons, Terry Davies, John Evans, Aled Williams, Amanda ac Aelwen Morgan. Diolchodd y ficer Aled Williams i bawb am noson ardderchog a'r gwaith caled a aeth mewn i'r paratoi ag i bawb am ddod i godi arian i Eglwys Betws Bledrws ac hefyd yr arian a roddwyd fel rhoddion.

Merched y Wawr Y Dderi

Cyfarfu y gangen ar Fedi 15fed. Croesawodd y llywydd sef Lettie Vaughan bawb i'r cyfrafod agored yn gynnes iawn a hi hefyd fu yn cyflwyno y gŵr gwadd Mr Nigel Nicholas.

Cawsom noson ragorol yn ei gwmni pan fu yn sôn ac yn dangos lluniau o sut y bu i'r llwybr ar hyd arfordir Ceredigion gael ei greu. Roedd y lluniau yn fendegedig a'r hanes yn ddiddorol iawn. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i'r siaradwr am noson mor ddifyr ac addysgiadol gan Deborah Jones.

Rhoddwyd y raffl gan Gwyneth Evans ac Irene Lewis ac fe'u henillwyd gan Mr Nicholas a Mair Spate. I ddiweddu y cyfrafod cafwyd paned o de a bisgedi wedi ei paratoi gan Eleanor Evans ac Iris Quan.

Dalier sylw fe fydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 13eg pan y disgwyllir Lyn Ebenezer i'n diddori. Fe fu yna rhai o'r gangen yn mynychu y gyngerdd yn ystod penwythnos Merched y Wawr yng Ngholeg Llambled yn ystod mis Medi.

Eglwys Betws

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Eglwys Betws ar fore Sul, Hydref 13eg am 10:45y.b. Y pregethwr gwadd fydd y Parch Dafydd Aeron.

18 oed

Penblwydd Hapus i Lowri Pugh-Davies, 5 Rhydlanfair ar ddathlu ei phenblwydd yn 18 oed yn ystod mis Hydref. Pob lwc i ti i'r dyfodol.

Ysgol y Dderi

Cafwyd wythnos o ddathlu wrth ffarwelio â Mrs Ann ar ddiwedd tymor yr haf, ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr. Dymunwn ymddeoliad hapus iawn iddi, ac fe fydd croeso mawr i chi Mrs Ann, nôl yn yr ysgol bob amser.

Pob lwc i gyn-ddisgyblion yr ysgol sydd wedi cychwyn yn Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan ac Ysgol Uwchradd Tregaron. Rydym yn gweld eich eisiau yn fawr.

Croeso cynnes iawn i Mrs Heini

Llangybi a Betws



Enillodd Ysgol y Dderi y wobwr gynaf am yr ardd ysgol orau yng Nghymru. Aeth Mr Roger, ein gofalwr, â phedwar o blant o'r ysgol, i fyni i Ynys Môn ar gyfer y seremoni wobrwyo. Cafwyd diwrnod i'r brenin. Llongyfarchiadau mawr, a diolch Mr Roger.



Yng nghinio blynyddol y Cyngor Sir yng Ngwesty'r Plu yn Aberaeron cyflwynodd Beverley Thomas, Golygydd y Cambrian News 'Gwobr Clod Ceredigion 2010' i Graham a Lynne Williams am eu gwaith diflino i gadw pentref Llangybi yn brydferth ac yn daclus. Hefyd yn y llun mae'r Cyng Hayden Lewis, Cadeirydd Cyngor Ceredigion.

Thomas ein pennaeth newydd, i Mrs Nerys Southgate athrawes dros dro, Miss Sarah Harries Cymorthydd, ac i'r disgyblion newydd a ddechreuodd gyda ni ym mis Medi. Gobeithio y byddwch chi'n hapus iawn gyda ni yn y Dderi.

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Susan ein cogyddes ar achlysur ei phriodas â Russell Jones o Lanbed yn ddiweddar.

Mae'r dosbarth Meithrin a'r Derbyn wedi bod yn brysur iawn yn gwneud siytni allan o gynnyrch yr ardd. Gwerthwyd y cyfan ac roedd yn flasus iawn!

Bu disgyblion Blwyddyn 4 yn helpu Mrs Helen Duffee i adeiladu Ffwrn Fara yng ngardd yr ysgol. Y gobaith yw y byddwn yn medru cynnal gweithgareddau coginio allan yn yr ardd yn fuan.

Aeth dau dîm o flwyddyn 5 a 6 i dwrnament Rygbi ar gaeau chwarae Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan yn ddiweddar. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr, ac rydym yn diolch i Gareth Williams, Swyddog Datblygu Rygbi Ceredigion a'i staff am y profiad.

Croeso cynnes iawn i bawb i'n

cyrrddau diolchgarwch: 14/10/10
Yn yr ysgol i'r henoed am 1.30yp,
15/10/10 10.00yb Adran y
Babanod, Capel Erw, Cellan am
1.30yp Adran Iau, Eglwys Silian.

Clwb Clonc

Hydref 2010

£25 rhif 182 :
Mrs Gwenda George,
Ceris, Victoria Terrace, Llambled.
£20 rhif 331 :
Esyllt a Mared Jones,
Cefngwrthafarn Uchaf, Pennant.
£15 rhif 257 :
Lowri, Sara, Cari a Mared Jones,
Cae'r Nant, Cwmann.
£10 rhif 416 :
Merfyn Thomas,
10 Nantoer, Llanybydder.
£10 rhif 307 :
Mrs Valerie Jones,
53 Bro Henllys, Felinfach.
£10 rhif 409 :
Mrs Dilwen Roderick,
Awelon, Heol-y-Bont, Llambled.

Ffarmers

Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Adrian a Wendy, Penbanc ar enedigaeth eu mab – Teifi John; ac hefyd i Alan a Nerys, Henllan hefyd ar enedigaeth mab – Llyr Gwilym. Estynnwn groeso cynnes i'r ddau fach, ynghyd a'n dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

Cydymdeimlad

Blin gennym gofnodi marwolaeth dau o drigolion yr ardal yn ddiweddar. Yn gyntaf, yn dilyn cyfnod yn yr ysbyty, bu farw Brenig Williams, Esgeronnen – Tanyresger gynt. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w briod a'r teulu cyfan yn eu profedigaeth. Rhoddwyd ei weddillion i orwedd ym mynwent Capel Ffaldybrenin. 'Rydym hefyd fel cymuned yn cydymdeimlo a theulu Pantygwin, yn dilyn marwolaeth Mrs Nan Thomas. Rhoddwyd ei gweddillion hithau hefyd i orwedd ym mynwent Capel Ffaldybrenin.

Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Bethel, Cwm Pedol ar Nos Fercher, Medi y 15fed gyda'r Parchedig Huw George, Llandisilio yn gwasanaethu. Mae'r Parchedig Huw George wedi bod yn ymwelydd cyson a ni ym Methel ers nifer o flynyddoedd, a braf oedd cael ei groesawi yn ôl ar achlysur ein Cwrdd Diolchgarwch. Fel arfer, llwyddodd i gyfleu ei neges mewn ffordd hwylus ac effeithiol. Diolch iddo ef, a phawb a wnaeth fynychu'r oedfa.

Y Gegin

Da cyhoeddi fod Eurig Jones bellach wedi cwblhau y gwaith o atgyweirio ac uwchraddio y gegin yn y Neuadd, ac mae'r gegin, y caffi a'r siop bellach yn weithredol o dan reolaeth Jayne a Diane. Mae'r siop a'r caffi ar agor yn ddyddiol rhwng 9.00 a 2.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener, a gallwch brynu amrywiaeth o nwyddau o'r siop, a chael paned neu ginio yn y caffi. Rhaid estyn ein diolch i Adran Adfywio Cymunedol Gwledig Cyngor Sir Gâr am gefnogaeth ariannol i ymgymeryd a'r gwaith. Yn ogystal a hyn, mae'r Swyddfa Bost hefyd wedi ei lleoli yn y Neuadd o dan reolaeth yr is-bostfeistr, Peter

Jukes, gyda'r Swyddfa ar agor o 9.00 i 12.00 ar ddydd Llun, dydd Mawrth, dydd Iau a dydd Gwener. Cofiwch gefnogi y mentrau lleol yma.

Sioe Llanycrwys

Cynhaliwyd y Sioe flynyddol eleni ar y 4ydd o Fedi ar Barc Bro Fana ac yn y Neuadd, a da nodi fod y diwrnod wedi bod yn llwyddiant mawr gyda chystadleuaeth dda, cefnogaeth frwd, a'r tywydd yn garedig. Llwydd y Sioe eleni oedd John Rhys Evans, Glastir, a chafwyd ganddo araith bwrpasol ar gyfer yr achlysur. Os am weld lluniau o'r Sioe, ewch i'r wefan gymunedol www.ffarmers.org ac mi welwch rhyw gant o luniau amrywiol o'r diwrnod.

Neuadd Bro Fana

Mae Pwyllgor y Neuadd bellach yn paratoi ar gyfer gaeaf arall o weithgareddau. Yn wir, cychwynnodd y cyfan ar nos wener, y 10fed o Fedi gyda Gyrfa Chwist. Noson hwylus gydag Irwel Jones, Buarth yr oen yn lliwio'r chwarae. Bydd Cyfarfod Cyffredinol Cyhoeddus Blynnyddol y Neuadd yn cael ei gynnal ar Nos Fawrth, y 12fed o Hydref am 8.30 yn y Neuadd. Estynnir croeso i drigolion yr ardal i fynychu'r cyfarfod. Ar y 15fed o Hydref, cynhelir Noson Bingo gyda Jean Evans a Bevan Williams yn galw. Yn sicr, bydd hon yn noson o hwyl a sbri i bawb. Ar ddechrau mis Tachwedd, bydd Ben Bouvet o'r Drovers yn ymuno a ni i roi gwers goginio. Nid yw'r dyddiad wedi ei gadarnhau eto, ond edrychwch allan am y manylion. Bydd Cerddorfa Siambr Llambled yn cynnal cyngerdd yn y Neuadd ar Nos Sul, y 14eg o Dachwedd. Cyfle i wrando ar gerddoriaeth glasurol gydag offerynwyr o bob oedran yn cymeryd rhan. Yn ôl yr arfer, cynhelir ein Cyngerdd a Noson o Garolau ar y nos Sul cyn y Nadolig, sef y 19eg o Ragfyr. Bydd elw'r noson eleni yn mynd tuag at Ambiwylans Awyr Cymru. Am ragor o fanylion am weithgareddau'r Neuadd, cysylltwch a'r Ysgrifennydd ar 01558 650507, neu ewch i'r wefan gymunedol www.ffarmers.org

Rhifyn mis Tachwedd
Yn y Siopau
Tachwedd 4ydd
Erthyglau i law erbyn
Hydref 21ain
Newyddion i law erbyn
Hydref 25ain

Os ydych yn ymateb i
hysbyseb gan gwmni yn
CLONC,
dywedwch wrthynt ymhle y
gwelsoch yr hysbyseb.

Llanfair Clydogau

Ymddiheuriad

Hoffem ymddiheirio yn ddiffuant a theulu y Quans, Swyn yr Afon, am fod y canlynol wedi mynd ar goll ar ei ffordd atom.

Yng Nghapel Mair, ar yr 2il o Fai, bedyddiwyd Rhidian Sion Quan, mab Martin ac Eleri a brawd bach Ceris a Ffion. Roedd y gwasanaeth yng nghofal y Canon Aled Williams a'r rhieni bedydd oedd Mrs Mary Edkins, Mr Colin Ewart a Mr David Davies. Chwaraewyd yr organ gan Mrs Dilys Davies. Diolch i bawb am y cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniodd Rhydian. Diolch hefyd i bawb a wnaeth helpu i baratoi y bwyd ar gyfer yr achlysur.

Taith flynyddol y pentref

Penderfynwyd eleni i fynd ar drip i Ddinbych y Pysgod ar ddydd Sadwrn, Medi 11ed a buom yn ffodus dros ben i gael diwrnod braf o'r dechrau i'r diwedd. Ar y ffordd galwyd yn Ffatri Siocled Pemberton yn ymyl Llanboidy lle fu pawb yn blasu eu cynyrch arbennig. Yna ymlaen i ben y daith lle bu rhai yn mwynhau tipyn o siopa a'r gweddill yn lwcus o'r tywydd i groesu i ynys Caldy lle treuliont y prynhawn.

O bob sôn cafwyd amser arbennig. Ar ddiwedd y dydd fe gwrddom i gyd yng ngwesty Jeff a Linda Williams, gynt o Lanfair, i gael swper blasus a chroeso arbennig. Roedd pawb yn cytuno eu bod wedi cael diwrnod hwylus dros ben gan ddiolch i Linda Quelch am drefnu y dydd. Edrychwn ymlaen i'r trip nesaf.

Clwb Cant

Ennillwyr mis Medi: £20 Betty Davies, Bryn Castell; £10 Mr Mathias, Greenhill; £10 Linda Quelch, Ty Nant; £10 Ivor Williams, Ffynnonbedr; £5 Deina Hockenhull,

Cellan

Ar wellhad

Gwellhad buan iawn i Mrs Mary Carter, Gwel y Waun wedi ei damwain yn ddiweddar. Braf yw clywed ei bod ar fin dod adref o'r ysbyty.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Stuart a Sam, Tre Cynon ar enedigaeth eu merch fach Roxy, chwaer i Nicole a Tyler. Ganwyd merch fach hefyd i Dyfed a Meinir, Rhydfechan sef Deina Harrhy, chwaer i Sion a Rhys. Croeso cynnes i'r ddwy ohonoch.

Tregaron; £5 Eleri Davies, Pentre; £5 Heather Boothby, Fountan; £5 Daniel Evans, Nantymedd; £5 Pedro, Llanfair Fawr; £5 Vaughan Evans, Y Ddol.

Sefydliad y Merched

Ar nos Iau, Medi 23ain daeth Mr Ashley Warlow Aberdaugleddau, prif swyddog Dyfed dros Gyngor Iechyd y Gymuned i siarad am ei waith. Mae C.I.C. yn cynnwys aelodau gwirfoddol sy'n sicrhau bod anghenion a barn y claf yn cael eu ystyried wrth gynllunio a darparu y gwasanaethau lleol. Mae un o'r gwirfoddolwyr yn byw yn ein plyth, sef Glenni Gratwick, Swyn y Ddol (tel: 01570493288 sydd yn fodlon gwrando unrhyw amser ar unrhyw anghenion sydd gydach ynglun a Chyngor Iechyd y Gymuned (NHS). Mae bob amser yn barod i wrando ar eich profiad a chael eich barn am y gwasanaethau yn eich ardal.

Gallwch gysylltu hefyd a'r swyddfa yn Aberystwyth ar 01970 624 760 neu ysgrifennu i'r swyddfa yn 8 Portland Road. Ar ddiwedd y noson cafwyd lluniaeth wedi ei baratoi gan Kate o Langybi, Elaine Coombes, a Pat Martin,

Clwb Cerdded Llanfair

Cafwyd diwrnod heulog braf i daith gerdded mis Medi o Gilfach yr Halen i Gei Bach ar hyd llwybyr arfordir Ceredigion. Daeth pymtheg o gerddwyr ynghyd i fwynhau rhai o olygfeydd gorau'r byd ac amser i ymlacio yng Nghei Newydd ar ddiwedd y daith. Bydd taith nesaf clwb cerdded yn ardal Llanfair Clydogau a Chellan. Croeso i bawb.

Beth sydd nesaf

Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch Capel Mair, Nos Iau Hydref 21ain am 7.00. Croeso cynnes i bawb. Bydd Bingo gyda Harold, nos Wener, 8fed Hydref am 7.30.

Pencarreg

Diolch

Dymuna Dai, Julie a Jasmine, Glenview ddiolch am yr holl gardiau, anrhegion, ymweliadau a galwadau ffôn dderbyniodd Jasmine yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Plant, Birmingham yn ddiweddar.

Pentrebach

60 oed

Penblwydd hapus a iechyd da i Mrs Liz Mills, Ffynnon-fair a ddathlodd ei phenblwydd yn 60 oed yn ystod diwedd mis Medi.

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur



Yswiriant tŷ/ cynnwys

Teithio

Fferm a busnes

Cyfrifoldeb

Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: 01570 422401

Ffacs: 01570 422562

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS

ARMS



Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambled

01570 422895

Ffair Briodasau'r Hydref

Yn Neuadd y Celfyddydau, Coleg Llambled

Dydd Sul 24ain Hydref

12 hanner dydd tan 4 y prynhawn Dewch i weld

Sioe Ffasiynau Priodasol gan Wisgoedd Priodasol Emma Phillips Ynghyd ag amrywiaeth o arddangosiadau...

Gwerthwyr blodau, Cerddorion /

Diddanwyr, Arbenigwyr harddwch,

Ffotograffwyr, Trafnidiaeth, Fideos,

Gwisgoedd Priodasol, Dillad Dynion,

Deunyddiau papur a llawer mwy...

Am ymholiadau pellach cysylltwch â Sioned 01239 851990

SEFYDLIAD PRYDEINIG

Y GALON

ARDAL LLANYBYDDER / LLANBEDR PONT STEFFAN

NOSON BINGO

gyda Harold

Yng Nghlwb Rygbi

Llanybydder

26ain o Hydref 2010 8pm

Elw tuag at

Nyrs Calon Ceredigion SPG

Rhif Elusen 225971

I'w osod

Tŷ Fferm

3 ystafell wely

2 filltir o Lamberd


ac 11 o Aberaeron.

Dim Cŵn

Cysyllter â

01570 470348.

Llanllwni



Rhys Llywelyn o Lanllwni gyda'r actor Julian Lewis Jones a Phil John o'r Scarlets yng nghwmni'r Brenhinbysg (Ling) - ffrwyth diwrnod llwyddiannus o bysgota am bysgod mawr oddi ar arfordir Dyfnaint yn ddiweddar. Ffilmwyd y daith dros yr haf, ar gyfer y gyfres 'Sgota' sy'n cael ei dangos ar S4C yn ystod yr hydref.

Ysgol Llanllwni

Croesawn bedwar o ddisgyblion newydd i'n plith – Max Parry i'r Adran Iau a James Rhodes, Mathew Williams a Tomasz Nowak i ddosbarth y babanod. Maent yn setlo'n dda ac yn hapus iawn.

Croeso hefyd i Miss Louise Thomas sydd wedi dechrau fel cynorthwywraig dosbarth. Dymunwn yn dda i Miss Ffion Williams sydd wedi ein gadael i ddilyn cwrs addysg yng Ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Cafodd sawl plentyn wobrau mewn gwahanol sioeau yn ystod yr haf. Llongyfarchiadau i chi gyd.

Cynhaliwyd noson lwyddiannus o Gemau Potes a Decathlon mewn sied ar fferm Clynmelyn, dydd Gwener, Medi 10fed. Diolch i ysgolion Llanwnnen, Cwrtnewydd, Llanwenog a Thalgarreg am ddod â thîmoedd i gystadlu. Dyma'r canlyniadau:- Gemau Potes: 1af Llanllwni A, 2ail Cwrtnewydd, 3ydd Llanwnnen. Decathlon: 1af Llanwnnen, 2ail Llanllwni A, 3ydd Llanllwni B. Roedd yna hefyd farbicwyr, raffl a stondin boteli. Mwynhaodd pawb er gwaethaf y tywydd garw tu allan. Diolch i bawb a gyfranodd a helpu. Diolchwn hefyd i berchnogion y fferm am gael defnydd o'r sied.

Datblygu ein sgiliau golff yr ydym yn ein sesiynau Campau'r Ddraig ar hyn o bryd.

Braf oedd croesawi Ficer Susy Bale fore Mercher, Medi 15fed i gynnal ei gwasanaeth boreol wythnosol cyntaf yn yr ysgol. Rydyn yn dymuno yn dda iddi yn ei swydd newydd fel ficer y plwyf.

Sioe CFFI Llanllwni

Ar ddydd Llun Gŵyl y Banc Awst, cynhaliwyd Treialon Cŵn Defaid a sioe C.Ff.I Llanllwni ar gaeau Abercwm trwy garedigrwydd Mr a Mrs Davies ar teulu. Braf oedd gweld tyrfâ dda o bobl ar y cae ar ddiwrnod mor braf. Gwelwyd cystadlu brwd yn y treialon cŵn defaid, y tent, a'r defaid. Llywyddion y dydd eleni oedd Mr a Mrs H Jones, Dolau duon, Llanllwni. Braf oedd cael eu cwmni a diolch

iddynt am eu rhodd haelionus.

Cynhaliwyd sioe fideo am wyth yr hwyr yn nhafarn y Belle View ac yna ocsiwn i gloi'r noson. Cafwyd tipyn o hwyl gydag Mr Dewi Davies yn gwerthu eitemau di-ri.

Gan gofio nad oedd y ffermwyr ifanc yn gwneud unrhyw elw, mae swm slyweddol o £1600 wedi cael ei godi at yr elusen a ddewiswyd, sef Kidney Dialysis Centre, Ysbytu Glangwili, Caerfyrddin. Os mae unrhyw un am cyfranu mae dal croeso i chi wneud.

Dymunau C.Ff.I. Llanllwni ddiolch i'r holl noddwyr am eu cyfraniadau, y beirniaid am eu gwaith, i'r cystadleuwyr am eu cefnogaeth, y stiwardiaid ynghyd â phawb arall a wnaeth helpu. Diolch i chi gyd!

Dyma'r canlyniadau:- Treialon Cŵn Defaid: Agored Cenedlaethol 1. Irwel Evans (Jim) 2. Martha Morgan (Becks) 3. Irwel Evans (Jess) 4. Idris Morgan (Ned) 5. Martha Morgan (Shep) 6. John Bowen (Bell). Agored De Cymru: 1. John Davies (Moss) 2. Irwel Evans (Jim) 3. Lloyd Jones (Taff) 4. Eirian Morgan (Glyn) 5. Rona Davies (Glen) 6. John Wheaton (Meg). Nofis De Cymru: 1. John Davies (Moss) 2. Irwel Evans (Jim) 3. Rona Davies (Glen) 4. John Wheaton (Meg) 5. Hugh Lewsi (Lad) a Ifan Griffith (Bob). Sioe Adran Garddwriaeth: Mrs Ann Bellamy, Hendy, Rhyddlan. Adran Flodau: Mr a Mrs Leigh, White Moss, Llanllwni. Adran Goginio: Miss Elen Jones, Fellin Gelli, Llanllwni. Adran Cyffeithiau a Gwîn: Mrs. Edwina Davies, Pantrodyn. Adran Defaid Mynydd: Jones, Blaenblodau, New Inn. Adran Defaid Iseldir: Davies, Gwndwn, Llanllwni. Pencampwyr Defaid: Jones, Blaenblodau, New Inn. Adran Gwartheg Godro: Davies, Gwndwn, Llanllwni. Adran Gwartheg Eidion: Evans, Panycoubal, Gwernogle. Pencampwyr Gwartheg: Howells, Gwarallt, Llanllwni. Adran Cynnyrch Fferm: Mrs Catrin George, Haulfryn, New Inn. Adran Plant Dan 7: Gruffydd Jones, Gelli Deg, Llanllwni. Adran Plant 7-11:

Siriol Howells, Pantglas, Llanllwni.

Ar ddiwedd Mis Gorffennaf cynhaliwyd noson 'It's a Knockout' a BBQ blynyddol y clwb ar caeau Glanafon. Er gwaethaf y tywydd braf oedd gweld 8 tim yn cystadlu a llongyfarchadau i'r tim buddigol sef Arwel Jenkins, Lyn Jenkins, Heilin Thomas, Arwel Jones a Aled Jones o

C.Ff.I Llanwenog.

Ar ddechrau Mis Awst cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinon Blynyddol y Clwb a chafodd y swyddogion isod eu ethol am y flwyddyn sydd i ddod: Cadeirydd: Catrin Evans, Glas y Dorlan, New Inn. Is-Gadeirydd: Daniel Joynson, Brithdir, Lliadiad Nenog. Ysgrifenyddes: Nerys Thomas, Bwlchclawdd, New Inn. Trysorydd: Sion Evans, Glas y Dorlan, New Inn. Ysgrifenyddes Cofnodion: Meryl Davies, Bryn-y-Coed, Pencader. Ysgrifenydd y Wasg: Meryl Davies, Bryn-y-Coed, Pencader. Hoffwn ddymuno pob lwc i'r swyddogion yn ei swyddi newydd!

Braf yw gweld aelodau newydd yn llawn brwdfrydded ac yn fwy na pharod i ymuno yng ngweithgareddau'r clwb. Cafom noson llawn hwyl a sbri yng ngofal yr arweinyddion i croesawu yr aelodau newydd, rydym hefyd wedi bod ar drip i Llanrhystud i chwarae golf. Rydym nawr yn brysur iawn yn paratoi tuag at cystadleuaeth Eisteddfod y Sir mis nesaf.

Diolch

Dymuna Siân Harries, Yr Hen Felin ddiolch yn fawr i bawb am y cradlau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar ennill gradd B.A. cynnar o Goleg y Drindod, Caerfyrddin.

Gwellhad Buan

Pob dymuniad da am wellhad buan i Emyr Evans, Cefncoed Isaf ar ôl triniaeth yn Ysbyty Glangwili.

Cydymdeimlo

Drwg clywed am farwolaeth Gordon Walters, Bryndulais. Estynnir ein cydymdeimlad a'u ffrindiau a'r holl gysylltiadau.

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes

Cychwynnodd y tymor newydd nos Fawrth, Medi'r 21ain, wrth i'r aelodau gyfarfod yn Eglwys Sant Pedr. Croesawyd y gynulleidfa â ddaeth ynghyd gan Selwyn Walters, y Cadeirydd, cyn ail-gyflwyno'r siaradwr gwadd, sef y Dr. John Morgan Guy. Bu ef yn rhoi darlith i'r Gymdeithas ym mis Mai ar 'Delweddau'r Beibl yn, ac o gwmpas Llanbedr', a chymaint oedd diddordeb yr aelodau ar y noson honno, penderfynwyd cael dilyniant iddi yn y lle priodol.

Unwaith eto, cafwyd braslun o'r hyn a glywyd eisioes am y ffenestri lliw, gan gyfeirio at y delweddau ym mhob un yn eu tro; pwy a'u cynlluniodd, a'r cwmnioedd fu'n eu gwneud, - rhai o'r gwneuthurwyr gwydr lliw gorau yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Pwysleisiodd fwy nag unwaith fod yna drysorau o ffenestri lliw yn yr Eglwys hon, ond y mae un ffenest' sy'n haeddu sylw rhyngwladol, sef y ffenest' Orllewinol.

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y ffenest' hon gan Wilhelmina Geddes, Gwyddeles a weithiodd dros y byd i gyd. Rhod y ffenest' yn ei lle yn 1947, ac mae'n dangos Crist yn galw Pedr ac Andreas. Mae'r ffigurau'n fawr a'r lliwiau'n llachar; mae'n debyg i ffigwr 'Pedr' gael ei fodelu ar gerflun sydd i'w weld yn yr Amgueddfa Brydeinig yn Llundain.

Cafodd yr aelodau gyfle i symud o gwmpas yr Eglwys i sylwi'n fanylach ar y ffenestri rhyfeddol o gywain.

Symudwyd safle wrth i'r aelodau deithio cam ceiliog i'r Eglwys Gatholig gerllaw, ac unwaith eto'r Parch John Morgan Guy yn cyfeirio at y cyfanwaith o drysor sydd gennym yn y dre yn yr Eglwys hon. Mae'n un o'r eglwysi Gatholig pwysicaf a godwyd yn yr 20fed ganrif, gan fod yn unigryw yn y ffaith iddi fod yn esiampl o gyfanwaith grŵp o aristiaid, sef 'Urdd o Artistiaid Catholig'; fe'i hadeiladwyd yn 1939-40. Unwaith eto, cafwyd cyfle i symud o gwmpas i sylwi ar y cerfluniau o waith pren a charreg, y paentiadau uwchlaw'r drysau, ac i werthfawrogi'r cyfanwaith sy'n hynod i dref Llanbedr.

Diolchwyd i'r Parch.Ddr. John Morgan Guy gan y cadeirydd, gan gyfeirio at y ddwy Eglwys, a'r trysorau sy'n haeddu llawer iawn fwy o sylw. Diolchodd hefyd i Penny David am drefnu'r noson, ac am y rhaglen ddiddorol o siaradwyr sydd o'n blaen yn ystod y tymor. Croesawyd Phillip Lodwick fel Trysorydd y gymdeithas.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Hydref 19 eg, 7.30 yn yr Hen Neuadd, pan fydd Nigel Nicholas yn siarad am 'Llwybr Arfordir Ceredigion'. Croeso cynnes i bawb.

Llwyddiant Cerddorol

Llongyfarchiadau i Meirion Thomas, Gilfachwen, Rhodfa Glynhebog am basio Gradd 5 gyda chlod ar y piano, o dan nawdd y 'London College of Music.' Cafodd Meirion farciau llawn yn y theori- da iawn ti.

Llongyfarchiadau hefyd i Kiri Douglas, Bryn Rhosyn, Barley Mow - hithau hefyd wedi pasio Gradd 5 gyda chlod yn ddiweddar.

Ysgol Ffynnonbedr

Er ei bod hi'n gyfnod gwyliau bu nifer o ddisgyblion a staff yr ysgol yn mynychu eisteddfodau dros yr haf. Hyfryd oedd gweld y tîm dawnsio cyfrwng cymysg ar lwyfan yr Eisteddfod Genedlaethol a Mari Lewis a Charlotte Saunders, Elan Lewis a Rhian Harris yn derbyn canmoliaeth uchel iawn yn y rhagbrawf am safon eu dawnsio mewn parau. Diolch yn fawr i Sally am hyfforddi ac i Nia, Anita a'r staff eraill a fu'n cynorthwyo. Daeth llwyddiant ysgubol i ran Charlotte Saunders wrth iddi gipio'r drydedd wobwr ar lwyfan y Genedlaethol yn yr unawd dan 12 oed - tipyn o gamp gan fod dros hanner cant wedi canu yn y rhagbrawf. Llongyfarchiadau mawr iddi.

Bu'r ysgol yn llwyddiannus unwaith eto yng nghystadleuthau Celf a Chrefft Eisteddfod Llanbedr gan gipio'r cwpan am yr ysgol gynradd uchaf ei marciau unwaith eto eleni. Diolch i'r holl staff a'r disgyblion am eu gwaith. Dyma'r canlyniadau:- Arlunio Meithrin a Derbyn - 1af Jodie Evans, 2ail Lisa Jones 3ydd Jackson Bullimore Arlunio bl 1 a 2 - 1af Adrian Miesik 2ail - Jac Williams Arlunio 3 a 4 - 1af Iestyn Owens 2ail Mari Lewis Llawysgrifen CA1 - 1af Adrian Miesik 2ail Mererid Thomas 3ydd Elan Jones Llawysgrifen Ca2 2ail Grace Page Technoleg CA2 1af Rhiannon Davies 2ail Elan Lewis 3ydd Caryl Jacob Ffotograffiaeth 1af Jack Guy 2ail Lowri Davies 3ydd Osian Jones Cyfrifiaduron Ca1 1af Owain Hemmings 3ydd Mererid Thomas Cyfrifiaduron CA2 2ail Poppy Partis Model allan o ail-gylchu 1af Merched 2 Dwynwen 2ail Merched 2 Dwynwen 3ydd Gabriel Davis Addurno Potel 1af Kyle Lloyd 2ail Adrian Miesik Addurno Carreg 3ydd Tanwen Owens

Dymunwn yn dda i Mr Huw Jenkins a'i briod Elizabeth Jenkins ar eu hymddeoliad. Cafwyd sawl parti ar ddiwedd y tymor a chyflwynwyd anrhegion ynghyd â DVD gyda'r plant a'r staff yn talu teyrnged iddynt am eu gwaith diflino dros y blynnyddoedd. Peidwch a bod yn ddiarth - cofiwch alw yn ôl i'n gweld.

Estynnwn groeso cynnes hefyd i Catrin Pugh a Geraint Thomas i'n



Disgyblion Ysgol Ffynnonbedr yn arddangos eu tystysgrifau Celf a Chrefft



Buddugwyr Twrnament yn Bow Street gyda'u tariannau.

plith fel aelodau newydd o staff a dymunwn yn dda i'r holl staff sydd wedi cymryd rôl newydd yn sgil y newidiadau yn yr ysgol ac i Mr Dylan Wyn yn ei rôl fel Pennaeth newydd y Campws.

Derbyniom fel ysgol rodd sylweddol o goffrau'r diweddwr Miss Mary James Heol y Bryn Llanbedr - mae'r ysgol yn gwerthfawrogi hyn yn fawr. Mae nifer ohonom fel staff yn ei chofio yn ein dysgu yn yr hen "Ffynnonbedr". Bydd yr arian yn ddefnyddiol iawn i ni fel ysgol ac fe fyddwn yn prynu adnoddau at les y plant yn ôl dymuniad Miss James.

Dymunwn ddiolch fel staff i Mark Saunders a chwmni LAS am eu parodrwydd i'n helpu i gael gwared ar ddeunydd di-angen yn ddiweddar. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr.

Llongyfarchiadau i Tanwen Owens am ennill gwobr yn y cylchgrawn Cip am wneud croesair. Dal ati i gystadlu Tanwen.

Bu disgyblion blynnyddoedd 5 a 6 mewn gwyl rygbi a drefnwyd i ysgolion y cylch ar gaeau'r Ysgol Uwchradd yn ddiweddar. Er gwaetha'r glaw a'r mwd cafwyd amser da yn dysgu sgiliau a chwarae gemau.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn ddigon ffodus i gael mynychu seremoni agor Siop Spar yn y dref ar ei newydd wedd. Roedd yn hyfryd i gael cyfle i gymharu'r hen a'r newydd.

Bedyddwyr

Daeth aelodau eglwysi Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi ynghyd i'r Coleg ar 24 Medi i fwynhau noson gymdeithasol yng nghwmni ei gilydd. Dyma'r tro cyntaf i ni drefnu noson fel hon. Croesawyd pawb yn gynnes gan Janet Evans, Cadeirydd y cylch ac yn arbennig ein gwraig wadd sef y Parchedig Judith Morris sydd yn Weinidog gyda'r Bedyddwyr yng nghylch Aberystwyth a'i phriod y Parchedig Wyn Morris, Gweinidog gyda'r Presbyteriaid. Mwynhawyd cinio ardderchog ac yna cafwyd gwledd arall yn gwrando ar ein gwraig wadd. Wrth ei chyflwyno soniodd Janet ei bod wedi gweithio gyda'r rhai oedd yn brwydro yn erbyn effeithiau alcohol a chyffuriau a gyda'r di-gartref a hefyd am ddeng mlynedd yn adran weinyddol y Gwasanaeth Tân cyn ei sefydlu yn Weinidog gyda'r Bedyddwyr ar Ebrill y cyntaf, 2007 yn eglwysi Bethel Aberystwyth a Horeb Penrhyncoch. Cafwyd pleser mawr yn gwrando arni yn ein hannerch ar y thema "Diolch" a hefyd yn sôn am y rhai oedd wedi dylanwadu arni a'i phersonoliaeth hawddgar a'i hiwmor iach yn ychwanegu at y boddhad. Soniodd mai mater o fod yn gwrtais yw diolch a bod gweithred fach syml fel hon yn medru bod yn rymus, yn gadarnhaol ac yn effeithiol iawn. Tra yn ddisgybl yn Ysgol

Llanbedr Pont Steffan

Gynradd Pontardawe bu dylanwad y Brifathrawes yn fawr arni sef Harriet Lewis neu Magi Post o "Pobol y Cwm" fel yr adwaenir hi gan bawb. Roedd Miss Lewis yn berson ymroddedig iawn ac yn meddu ar y ddawn o fynd i fyd y plentyn a chael y gorau allan ohonynt. Diolchodd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos i'n gwraig wadd am ei chyfraniad gwerthfawr i'r noson ac i Nesta Harries Ysgrifennydd y cylch am ei pharatoi manwl a thrylwr yn ol ei harfer. Talodd deyrnged hefyd i'r bobl ifanc a oedd wedi gweini'r bwyd, i Janet am lywyddu ac i aelodau'r chwe eglwys am ddod. Cytunai pawb ein bod wedi cael noson bleserus a difyr iawn yng nghwmni ein gilydd.

Aelwyd yr Urdd

Erbyn i Clonc ddod o'r Wasg bydd cyfarfod cyntaf y tymor newydd wedi cymryd lle a nifer o weithgareddau amrywiol wedi eu trefnu ar gyfer y misoedd nesaf. Mae'r Aelwyd yn cwrdd bob yn ail nos Fawrth yn Ysgol Ffynnonbedr. Am fanylion pellach, cysylltwch a Janet (422856) neu Geinor Medi (422017).

Noddfa

Cynhelir oedfa arbennig yn Noddfa ar Sul 10 Hydref am 5 o'r gloch yng nghwmni'r plant a'r bobl ifanc. Croeso cynnes i bawb.

Taith nodedig Canolfan Steffan

Dymuna pawb yng Nghanolfan Steffan ddiolch o waelod calon i'r busnesau a'r unigolion a gyfrannodd i'r barbeciw a gynhaliwyd ar 8 Medi. Roedd y tywydd yn braf a bu'r diwrnod yn llwyddiant mawr. Ymunodd nifer o bobl yn nhaith cerdded hanner milltir 'Barley Mow' yn y bore o Ysgol y Bont, Canolfan Meugan, Aberteifi ynghyd â llawer o gefnogwyr o Grŵp Cerddwyr Llambed.

Bu tîm Llund Bol yn paratoi cinio i 100 o bobl. Yn ystod y prynhawn bu Roy Brazier a'i strafagansa cerddorol, SHOMUDDYMUDDY yn codi'r to. Diolch unwaith eto i'r noddwyr canlynol am eu haelioni. Gwerthfawrogi eu caredigwydd yn fawr iawn. Tony Bwtshwr, Conti's, Caxton's, Hedyn Mwstard, Bargain Box, Briwsion, Mark Lane, Siop Wendy Felinfach, Caffi Neuadd y Dref, Mulberry Bush, Organics, Aeron Bacon Felinfach, Maddy Parry, Mike Collom, Dai & Delyth Jones, Felinfach, Tim Davies, Felinfach, G&M Motors, Garej Troedyrhiw, Co-op, Sainsbury's, Spar, Dere i Dorri.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Ar nos Fercher 1af o Fedi cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr

Iorwerth Evans, Llanybi yn arwain a Nancy Davies Heol y Wig wrth law. Enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion, 1af. Yvonne Jones, Tregaron, 2il. Emrys Evans, Llanllwni, 3ydd. Mai Williams, Tregaron, Merched, 1af. Catrina Davies, Aberaeron, 2il. Dilwen Rodrick, Stryd Newydd, Llambed, 3ydd. Ifan P.Jones, Aberaerth. Carden Miniature – Dynion, Edward Lockyer, Hafan Deg. Merched, Margret Jones, Pentrebach. Bwrw Allan – Enillwyr, Sara Humphreys Jones, Alltyblaca a Yvonne Jones, Ail. Nancy Davies, Heol y Wig, Llambed a June Mason, Rhos Harford, Llambed.

Enillwyr nos Fercher 15 Medi: Dynion, 1af. Peggi Davies, Felinfach, Cydradd 2il. Eileen Colbourn, Ffostrasol a Harry Williams, Ystrad Aeron. Merched, 1af. Nanna Davies, Stryd Newydd, Llambed, 2il. Gwyneth Williams, Prengwyn, 3ydd. Nancy Dvaies, Heol y Wig, Llambed. Carden Miniature – Dynion, Iorwerth Evans, Llanybi. Merched, Gwenda Thomas, Llambed. Bwrw Allan – Enillwyr, Marged Davies, Ffostrasol a Mary Jones, Llambed. Ail, Cathrina Davies, Aberaeron a Iorwerth Evans, Llanybi. Bydd y Gyrfa oed Chwist mid Hydref ar Nos Fercher 13eg a 27ain. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf a phawb sydd wedi colli anwyliad yn ystod y mis.

Merched y Wawr

Cafwyd Noson Agored dda iawn yng nghwmni 'Dim ond Dwy' ar ddechrau tymor newydd, Merched y Wawr cangen Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch, ar nos Lun y 13 o Fedi 2010. Croesawodd y Llywydd newydd sef Mrs. Mary Davies yr aelodau presennol a'r newydd, a'r gynulleidfa. Dywedodd Mary ei bod yn dda i glywed bod yr aelodau oedd wedi dioddef cyfnod o salwch dros yr Haf wedi gwella. Bu Mary a'r aelodau yn cofio am y diweddwr Mrs. Llinos Harries a oedd yn aelod ffyddlon a gweithgar o gangen Llanbedr. Dywedodd Mary bod Llinos wedi brwydro yn galed i fyw bywyd normal, ac y byddwn yn gweld ei heisiau yn fawr iawn. Mynegodd gydymdeimlad a Malcolm ei gŵr, a'r teulu. Yna, croesawodd Mary, 'Dim ond Dwy', sef Rhian Morgan a Llio Silyn, y ddwy actores ffraeth o Landeilo. Roedd eu perfformiad graenus a diddorol yn cynnwys straeon a chymeriadau lliwgar, barddoniaeth, canu a llawer mwy. Cafwyd gwledd o fwynhad ganddynt a'r noson yn un ddelfrydol i ddechrau'r tymor



Swyddogion eglwysy Bedyddwyr cylch Gogledd Teifi a'r wraig wadd yn eu cinio yn y Coleg.



Aelodau Adran ac Aelwyd yr Urdd Llambed yn cyflwyno rhodd ariannol i Guto Gwilyn a fydd yn ymweld a Phatagonia cyn bo hir fel rhan o gynllun gwaith gwirfoddol Urdd Gobaith Cymru. Bu Guto yn aelod ffyddlon a gweithgar o'r Urdd yn Llambed ar hyd y blynyddoedd ac mae wedi dal nifer o swyddi yn yr Aelwyd. Felly dyma gyfle i ddangos ein gwerthfawrogiad i Guto am ei gyfraniad arbennig. Pob dymuniad da i ti Guto ym Mhatagonia. Byddi di siwr o gael profiadau anhygoel. Edrychwn ymlaen yn eiddgar i glywed yr hanes.

newydd. Diolchodd Mrs. Dilwen Roderick i Rhian a Llio y ddwy actores amryddawn am ddod a'n diddanu, ac i Gyngor y Celfyddydau am noddi'r noson. Diolchodd i Mary a'r pwyllgor am werthu tocynnau'r noson ac am y lluniaeth a dderbynwyd, ac i'r gynulleidfa am ddod a chefnogi'r noson. Tynnwyd y raffl, a rhoddodd Mary ddiolch i'r aelodau a oedd wedi rhoi gwobrau'r raffl, a gwerthu'r tocynnau. Enillodd Miss Gwenda Thomas y raffl misol. I gloi'r noson diolchodd Mary am cydweithrediad y pwyllgor ac i bawb eraill am helpu i wneud y noson yn llwyddiant. Bu nifer o aelodau cangen Llanbedr ynghyd â thua 500 o aelodau'r mudiad dros Gymru yn bresennol yn y 'Benwythnos Breswyl' a chafodd ei gynnal ym Mhrifysgol Cynru y Drindod Dewi Sant, Llanbedr P.S dros y benwythnos 17 o Fedi 2010. Hoffwn ni atgoffa'r aelodau sydd wedi rhoi eu henwau i'r ysgrifenyddes i ymweld â Thregaron ar y 6 o Hydref, i gyfarfod ym maes parcio'r 'Rookery' erbyn 7.30yh os gwelwch yn dda.

Alltyblaca

Capel Undodaidd

Ar ddydd Sul 24ain o Hydref am 4.00 o'r gloch y prynhawn cynhelir Cwrdd Diolchgarwch y capel. Pregethir gan y Parchedig Alun Wyn Dafis o Gei Newydd. Croeso cynnes i bawb.


Llongyfarchiadau

Ein dymuniadau gorau i Mrs Nancy Williams, Woodlands, Alltyblaca fydd yn dathlu eu phen blwydd yn 90 oed y mis yma.

18 oed

Dathlodd Heddwyn Jones, Llwynbedw ei benblwydd yn 18 oed yn ystod mis Medi. Gobeithio i ti fwynhau'r diwrnod a dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Cydabyddir cefnogaeth



www.bwrdd-yr-iaith.org.uk



Enw: Berwyn Hughes
Oed: 26
Pentref: Llanbed
Gwaith: Ffermio
Teulu: Dad, Mam, Mam-gu, Caryl a Ben

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
 Neud 'Big Hits' ar Gary wrth chwarae rygbi ar y cae yn Ysgol Llanwnnen - dim ond un bach odd e amser 'ny!

Hoff raglen pan oeddet yn blentyn.
 Tom and Jerry

Yr eiliad o'r embaras mwyaf.
 Gorfod gofyn i Aled Pantygwin ddod draw â'r digger i dynnu'r tractor mas ar ôl i fi fynd yn sownd mewn cae am yr ail waith yn yr un lle yn gwmws!

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
 Galw 'Chi' ar rywun sydd dipyn yn henach. Costio dim i fod yn gwrtais!

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
 6 troedfedd o daldra. Ha! Na, i fod yn onest, wastad yn moyn ffermio!

Beth oedd y frawddeg bachu orau a ddefnyddiaist erioed?
 Sa i'n credu mod i'n foi am ddefnyddio rhain - byddwch eich hunan dyweda i, gweithio'n well!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
 Dangos gwartheg mewn sioeau!

Pwy yw dy arwyr?
 Mae yna dipyn o wahaniaeth rhwng y ddau ond 'na i ddweud Mohammed Ali a Dai Llanilar!

Y peth gorau am yr ardal hon?
 Ffrindiau

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
 Rhai pobl fusneslyd sydd â dim byd gwell i neud ond busnesa, ond ma' rheiny i gael ym mhob ardal!

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
 Cymro i'r carn!



Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
 Pwdrwns a celwyddgwns.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
 Ordre sied newydd a'i chodi!

Beth sy'n codi ofn arnat?
 Gwneud araith ym mhriodas Llyr a Ceris, sdim dal beth dyweda i ar ôl cwpwl o beints. Ha!

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
 Rhai wythnosau yn ôl wrth golli llo yn styc hanner ffordd mas o'r fuwch ar enedigaeth siŵr o fod!

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
 Ennill y brif bencampwriaeth yn y Ffair Aeaf a chael yffach o gusan gyda Cheryl Cole i ddathlu!

Wyt ti'n difaru rhywbeth?
 Mod i heb gymeryd athletau mwy o ddifri pan yn yr ysgol, o'n i fel whippet ar y 100 medr!

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n bersonol?
 Darganfod mod i'n mynd i fod yn wncwl!

Cyfrinach i gadw'n heini?
 Digon o waith caib a rhaw ar y fferm - *no pain no gain!*

Beth yw'r cyngor gorau gest ti?
 'Peidio bentyg gormod o arian o'r banc'- gan Dad! Peidio gadael 'Big G' gael hwn cyn iddo fynd i'r print!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Tall, dark and handsome. Ha! Na - Penderfynol, gweithgar a gonest!

Beth yw barn pobl eraill amdanat ti?
 Boi tawel- wel rhan fwyaf o'r amser, sy'n joio'r bywyd amaethyddol!

Pa gar wyt ti'n gyrru?
 Mitsubishi Shogun

Beth yw dy hoff ddywediad?
 Dal' sownd!

Gyda phwy fyddet ti'n hoffi bod yn sownd ar ynys anghysbell?
 Cheryl Cole a Kelly Brook - dwy go lew!

Sut wyt ti'n ymlacio?
 Mynd i'r mart i chwilio am fargen.

Ffrindiau ar facebook?
 Wi ddim ar facebook, dim amynedd! Os wi moyn siarad â rhywun 'na i ffonio nhw!

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
 Coesau hirach achos mae'n job cael trowsus i ffitio!

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
 Passports y da - Ma' nhw'n fwy pwysig na'r da eu hunain! A Benji'r ci wrth gwrs!

Oes yna rywbeth y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
 Chwarae rygbi i dîm 1af Llanbed, a pheidio bod ofn uchder!

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
 Aled, Llyr a Gary yn mynd i redeg hanner marathon! Chwarae teg!

Cerddoriaeth yn dy angladd?
 Dafydd Iwan 'Yma o hyd'.

Beth fyddet yn ei wneud pe na baet yn gwneud y gwaith hwn?
 Bwtchwr siŵr o fod!

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
 Tarw!

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
 Teulu a'r gwartheg sioe!

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
 Wel ma' dad wedi dysgu fi'n dda am amaethu, ond dylanwad gwael yw Dylan Beefy ar nos Sadwrn gan ngorfodi i i yfed peints. Mae e'n ddwbl fy maint i!

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Angharad Davies (Hadi) Pentrebach

Swdocw

Sut i chwarae - Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob boc yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw _____
 Cyfeiriad _____
 Cod post _____
 Rhif Ffôn _____

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
 I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	1		2		5			8
		4	6	3				
		5			8	2		
		7						
	2	6				3	4	
						9		
		1	3			6		
				7	4	5		
3			1		2		7	

Atebion Swdocw mis Medi:

Dim cymaint o ymateb y tro hwn. Anoddach nag arfer efallai. Llongyfarchiadau i Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin a diolch i'r canlynol am gystadlu: Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder ac Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder.

6	3	4	8	9	5	2	1	7
5	8	1	2	6	7	9	3	4
7	9	2	4	1	3	5	6	8
1	2	9	5	4	6	7	8	3
8	7	5	9	3	1	4	2	6
4	6	3	7	2	8	1	9	5
9	4	7	6	8	2	3	5	1
3	5	6	1	7	9	8	4	2
2	1	8	3	5	4	6	7	9

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr,
Llambled, ☎ 421985



Ystod eang o offer swyddfa
a deunyddiau celf a chrefft
am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:

- Certris inc a deunyddiau
cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch,
- mapiau arolwg ordnans,
- deunyddiau postio a phacio,
- deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau
lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a
phlant, - paent Winsor a Newton,
- padiau brasluniau arlunwyr,
cynfas a phapur dyfriliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambled
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob
gwasanaeth cyfreithiol
*Apwyntiadau hwyr neu
yn eich cartref*

**W.D.
Lewis**
a'i Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont,
Llanbedr Pont Steffan

*Am holl fwydydd a nwyddau
amaethyddol, cysylltwch â ni.*

**WILLIAMS
& BOURNE**
CYFREITHWYR.
COMISIYNNWYR LLWON

Trosglwyddiadau a phob
gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.

**1 Sgwâr Harford,
Llambled**

☎ 01570 422206 ☎ 01570423540

A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder,
Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG

Abernant, Llanwenog

Gwasanaeth arlwyio cyflawn ar
gyfer pob achlysur

- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes



*Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion
chi - boed yn fawr neu'n fach*

Mair Hatcher

01570 481230 / 07967 559683

Llanybydder

Noson Wobrwyo Clwb Pêl-droed Ieuencid Llanybydder



Dan 7 – Meirion Lloyd, Lucian Evans, Rhys Jones



Harri Davies, Idris Lloyd, Owen Davies



Dafydd Morgan, Steffan Jones, Daniel Broniman

Diolch

Dymuna Betty, Ger-y-nant, Tŷ
Mawr ddiolch yn ddiffuant i'w
theulu, cymdogion a ffrindiau
am yr holl gardiau, anrhegion a'r
blodau ynghyd â'r galwadau ffôn a
dderbyniodd adeg ei phenblwydd
ddiwedd mis Awst. Gwerthfawrogi
eich caredigrwydd yn fawr iawn.

Paratoi am y Nadolig.

Mae "Pwyllgor Gwelliannau
Allanol Ariannol Llanybydder," yn
ddiwyd yn paratoi gogyfer ag Ail
Ffair Flynyddol Nadolig a gynhelir
yn y 'Mart', trwy garedigrwydd
Evans Bros, ar Ddydd Sadwrn y
4ydd o Ragfyr am 4.00 y.p. Fe fydd
thema Fictorianaid i'r achlysur a
gobeithiwn weld llawer wedi gwisgo
yn nillad y cyfnod. Bydd gwobr i'r
wisg a'r stondin orau.

Gwahoddwn crefftwyr lleol,
busnesau ac elusennau i gymeryd
rhan. Am fanylion pellach
cysylltwch â Pam Burke, Siop y
Compton ar 01570 480209. Bydd y
cyfan o dan do ac fe fydd trydan ar
gael i bob stondin.

Gobeithiwn wahodd doniau
lleol i'n diddori. Os y dymunwch
berfformio cysylltwch â'r Pwyllgor.
Edrychwn ymlaen am eich cwmni yn
y digwyddiad arbennig yma.

Diolch

Dymuna Dilwyn Gibby, Erwlon
ddiolch i bawb am y cardiau â'r
anrhegion ar ddathlu penblwydd
arbennig yn ddiweddar.

40 oed

Llongyfrachiadau a dymuniadau
gorau i Julian Davies, 34 Heol-y-
Gaer ar ei benblwydd yn 40 oed ar
Hydref 5ed.

Taith i'r Amerig

Ein dymuniadau gorau i'r
Parchedig Eirian Wyn Lewis,
Mynachlog-ddu sydd wedi mynd ar
ei daith unwaith eto i'r Amerig Y
tro hwn bydd yn ymweld a'r Cymry
yn Ohio. Wedi treulio rhai dyddiau
yn Shandon, ger Cincinnati bydd yn
teithio i Oak Hill gan iddo dderbyn
gwahoddiad i bregethu yno mewn
Gwyl flynyddol a gynhelir ers 138 o
flynyddoedd. Fe ymfudodd amryw
o deuluoedd i'r ardal o Gilcennin
a rhannau eraill o Geredigion yn y
bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bydd
hefyd yn ymweld a Choleg Rio
Grande lle ceir Adran Astudiaethau
Cymraeg. Cyn dychwelyd bydd yn
teithio i Dallas yn Texas i dreulio
peth amser gyda'i gyfnither Sandra
a'i theulu sy'n wreiddiol o Lanllwni.
Dyma'r pedwerydd tro iddo gael y
cyfle i deithio i'r Amerig a hynny
bob tro drwy wahoddiad caredig gan
Gymry'r Amerig.

Dymunwn ei longyfarch hefyd
ar ennill gradd yn y Gymraeg ym
Mhrifysgol Llambled yn ystod yr haf.

Aberduar

Bu aelodau Capel Aberduar
brynhawn Dydd Sul 26 Medi
mewn gwasanaeth yng Nghapel
Soar y Mynydd. Roedd y
gwasanaeth yng ngofal y Parch
Aled Davies, Chwillog, un o
blant Capel Aberduar. Roedd y
capel bach yn orlawn o wahanol
gapeli wedi dod ynghyd. Cyn
troi am adref, galwodd yr
aelodau i gael cwpaned o de
yng nghaffi Tŷ Te Twm yn
Rhandirmwyn. Diolch i Dewi
Davies, Glanafon am drefnu'r
bws a phob un wedi mwynhau'r
diwrnod mas draw.


Sioe Amaethyddol
Llanbedr Pont Steffan
Cynhelir

Cinio Blynyddol y Sioe
Nos Wener Tachwedd 5ed
Yng Ngwesty'r Llew Du,
Llambled

Am 7.30 o'r gloch
Enwau cyn gynted a phosib i
Mr Gareth Russell
ar 01570 423396 neu
Mrs Gwen Davies
ar 01570 481152
Croeso Cynnes i Bawb

Cofio Cyfaiil - John Jones (1913 - 2009)

Wel, mae blwyddyn arall ac eisteddfod arall wedi dod a mynd a hwyrach fod hi'n adeg addas i gofio am un o gyeillion mwyaf teyrngar o'r gystadleuaeth Llais Llwyfan Llanbed. Yn dawel yn oriau man fore Sadwrn yr 28ain o Dachwedd 2009 bu farw un o gymwynaswyr mawr bro Llanbed, sef John Jones, Gelli-deg, Maesllan neu Jac Gelli-deg sef yr un oedd yn cael ei adnabod. Nid oedd yn Gardi o ran tras na magwraeth ond ar ôl oes o amaethu yn Sir Gar ymddeolodd ef a'i gymar Ray o fferm Gelli-deg, Taliaris i'r byngalo o'r un enw ar ddiwedd y saithdegau. Bwriodd wreiddiau triw a chadarn yn ei fro fabwysiedig gan wneud llu o ffrindiau ac ymuno yng ngweithgarwch yr ardal. Roedd yn aelod brwd a ffyddlon o Gôr Cwmman am flynyddoedd; enillodd wobrau am ei ardd a'i flodau ac ar ôl teithio 'nol i'r hen gapel yn Hermon am gyfnod, symudodd aelodaeth i gapel Soar. Yno yr oedd wedi darganfod cymdeithas o bobl arbennig iawn a byddai yn aml yn dweud "Na'r peth gore nes i". Roedd



ei ffydd yn un gadarn a diwyriad – er gwaetha'r treialon blin a ddaeth i'w ran ef a'i briod pan gollwyd eu hunig blentyn, Brynmor, mewn damwain ffordd ac yntau'n ddeuddeg mlwydd oed. Roedd yn hoff iawn o ganu, a dywedai bob amser mor bwysig oedd meithrin a hybu cantorion ifanc er mwyn eu galluogi i ddilyn gyrfa yn y byd proffesiynol. Amlygwyd hyn yn ei gefnogaeth hael o'r gystadleuaeth Llais Llwyfan Llanbed pan gyflwynodd y brif wobwr am bedair blynedd o'r bron. Tan y diwedd, er fod yr ieched yn dirywio, roedd yn bleser i weld ei ardd. Fentra'i'r un "estron gwyllt o ddant y llew" ddangos ei wyneb yno! Cadwodd nifer o bobl yr ardal mewn cinabens a thomatos bob haf. Ond erbyn dechrau'r hydref a'r gwaeledd yn cael gafael, bu'n rhaid gadael y tomatos i yn y tŷ glas a bellach pedair wal yr ysbyty oedd ei filltir sgwar tan y diwedd. Felly, nos da'r hen ffrind! Fe welir eich eisiau mewn sawl man a lle ac heddiw mae Llanbed yn wacach ac yn dlotach o'ch colli.

O'r Cyngorau Bro



Cyngor Tref Llanbed

Maer: Rob Phillips, Clerc: Eleri Thomas, Cyngorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris, Cyngorydd Sir: Ivor Williams. Cyfarfu'r Cyngor ar 26ain o Awst 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan Dorothy Williams.

Plismona: Nodwyd bod y parth dialcohol yn y dref wedi llwyddo; ond roedd gofid y gallai problemau godi mewn ardaloedd eraill yn sgil hynny.

Nodwyd y byddai Pwyllgor Ymgynghorol ar Reoli Trafnidiaeth yn cael ei sefydlu rhwng cynrychiolwyr o Gyngor y Dref a Chyngor Ceredigion.

Byddai adroddiad ar welliannau arfaethedig yn Sgwar Harford yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Roedd rhai arwyddion newydd wedi'u codi yn ddiweddar ond roedd rhaid aros am wybodaeth gan Gyngor Ceredigion cyn symud ymlaen i godi eraill.

Derbyniwyd polisi TG drafft y Cyngor a oedd wedi'i baratoi gan y Maer. Cynigiodd Elsie Dafis lunio 'Llawlyfr i Ymwelwyr'; byddai'n gallu dechrau ar y gwaith ym mis Ionawr.

Atgoffwyd aelodau'r Cyngor bod angen dybryd i sicrhau lle addas i storio eiddo'r Cyngor.

Penderfynwyd anrhydeddu Mr Leno Conti i gydnabod ei wasanaeth i'r dref yn seremoni sefydlu'r Maer yn 2011.

Penderfynwyd cefnogi cais gan Eglwys San Pedr dan Gynllun Cymunedol y Cyngor Sir.

Nodwyd y byddai'r Cyngor Sir yn cyflwyno dull gwahanol o gasglu sbwriel ym mis Tachwedd 2010.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 30ain o Fedi 2010, 7.30y.h yn Neuadd Eglwys San Pedr.

Cyngor Cymuned Llanwnnen

Cadeirydd: Chris Evans, Clerc: Eirian Williams, Cyngorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 7 Medi 2010.

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod: derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Cyng Emyr Lloyd. Darllenwyd, derbyniwyd ac arwyddwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir o'r gweithgareddau.

Estynnodd y Cyng. Gwendoline Davies, ar ran ei chyd gynghorwyr, gydymdeimlad i'r Cadeirydd a'i deulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

Trefnwyd fod cynrychiolwyr o'r Cyngor, sef y Cyng. Gwendoline Davies a'r Cyng. Aneurin Davies, yn mynychu Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Un Llais Cymru ym mis Hydref.

Penderfynwyd derbyn cynnig 'Gofal a Thrwsio Ceredigion' i ddod i annerch cyfarfod i farchnata'r gwasanaeth. Cynhelir y cyfarfod agored hwnnw Nos Fawrth, Hydref 19eg am 8.00 p.m. yng Ngwesty'r Grannell a gobeithir am gefnogaeth trigolion yr ardal.

Trafodwyd nifer o geisiadau cynllunio oedd wedi dod i law a nodwyd bod y clerch yn danfon y sylwadau at yr adran briodol yn y Cyngor Sir.

Rhoddodd y Cyng. Haydn Richards amlinelliad o faterion pwysig a pherthnasol sydd dan drafodaeth gan Gyngor Sir Ceredigion, am nifer y tai newydd a bennir i bob ardal a hefyd nifer y Cynghorwyr sy'n cael eu hethol i'r Cyngor Sir.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 19eg o Hydref 2010 am 7.00y.h.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas, Clerc: Gwennan Davies, Cyngorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar Medi 7fed 2010

Daeth Mr Gordon Longdale atom i roi crynodeb o'r digwyddiadau ym Mharc Chwarae Drefach. Dywedwyd y bydd y wal a gafodd ei difrodi gan y rhew gaeaf llynedd yn cael ei hail-wneud yn ystod mis Hydref; wedi hyn bydd y rhwystrau yn cael eu rhoi yn eu lle cyn i'r parc chwarae gael ei agor yn swyddogol.

Cadarnhawyd y bydd arwydd 'Llanwenog' wedi cael eu osod cyn y cyfarfod nesaf.

Daeth cais yn gofyn i un olau stryd penodol fod ymlaen trwy'r nos; penderfynwyd caniatáu'r cais ar yr amod bod yr ymgeisydd yn talu amdano. Penderfynwyd y byddai pob cais tebyg yn cael ei ystyried yn unigol.

Derbyniwyd llythron yn cwyno am y coed sy'n gorlifo i'r heol ar y ffordd i fewn i Gwrtnewydd o Drefach. Mae llythyr wedi ei ddanfôn at y Cyngor Sir yn gofyn am ymateb brys gan ei fod yn sefyllfa beryglus.

Daeth cais wrth y Cynghorwyr yn gofyn i lythyr gael ei ddanfôn i'r Cyngor Sir yn tynnu eu sylw at yr angen am gyflenwad digonol o halen yn y boesys ac ar rîwiau ysgolion Cwrtnewydd a Llanwenog.

Cyhoeddodd y Cynghorydd Sir Haydn Richards y ffigurau tai sydd wedi eu clustnodi ar gyfer pentrefi yn y Cynllun Datblygu Lleol ond bod y Cyngor Sir heb dderbyn yr awgrymiadau ac wedi gofyn i'r Adran Gynllunio ailedrych arnynt. Cyhoeddodd hefyd am yr ad-drefnu ffiniau o fewn Siroedd ac y gallai Llanwenog ddod o dan Llanbed yn y dyfodol.

Derbyniwyd llythyr gan y Cyngor Sir yn cyhoeddi y bydd newidiadau i'r casgliadau gwastraff tŷ o'r 15fed o Dachwedd ymlaen. Daeth hysbysiad fod yr awyrlu yn ymarfer dros Blwyf Llanwenog rhwng y 9fed a'r 16eg o Hydref 2010. Nododd y Cyng. Geraint Davies bod Cwmsychpant heb fand llydan ar hyn o bryd a'u bod yn mynd trwy'r broses gyda'r Cynulliad er mwyn sicrhau y gwasanaeth i'r pentref.

Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Emyr Evans, Is-gadeirydd: Tom E Bowen, Clerc: Eirlys Davies, Gohebydd y Wasg: Dewi Davies, Cyngorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 13 Medi 2010.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

Nid oedd anawsterau trosglwyddo'r Cae Chwarae i ofal y Cyngor Bro wedi eu datrys eto oherwydd bod angen cyfreithwyr arbennigol.

Nid oedd y Cyngor Sir yn gallu torri'r cloddiau fel yr oedd angen am fod cwyn wedi dod gan aelod o'r cyhoedd.

Ystyriwyd cynlluniau ar gyfer cadwyn y cadeirydd a phenderfynwyd symud ymlaen i archebu cadwyn.

Derbyniwyd gwybodaeth am ymarferion milwrol yn yr ardal 9-16 Hydref 2010.

Nodwyd bod angen symud postyn BT ger Ffynnon Newydd am ei fod yn beryglus i'r cyhoedd. Byddai'r Clerch yn cysylltu â BT.

Derbyniwyd ffurflenni a gwybodaeth gan Linda Evans yn egluro y gallai rhai oedolion dros 65 oed yn y gymuned wneud cais am ostyngiad yn y dreth. Dyddiad cau 30 Medi 2010.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf. Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni, 8fed o Dachwedd 2010 am 8yh.

Llanwnnen

Llongyfarchiadau

Llongyfrachiadau i Rhodri Bowen, Delyn Aur ar ddringo mynydd Kilimanjaro yn Tanzania (llun ar y dudalen gefn). Buodd Rhodri wythnos ar y mynydd a chyrraedd y copa ar y pumed diwrnod, uchder o 5,895 metr, y pwynt uchaf yn Affrica. Cyn hynny roedd yn gweithio yn Ysbyty Muheza yng ngogledd-ddwyrain Tanzania am bum wythnos fel rhan o'i astudiaethau meddygol.

Priodas Dda

Dymuniadau gorau i Barry a Heulwen Evans, Ffrwd ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Gwellhad Buan

Derbyniodd Margaret Lewis, 2 Bro Llan law-driniaeth yn ddiweddar. Gwellhad buan i chi.

Ysgol Llanwnnen

Yn y rhifyn diwethaf gadawyd allan, ein llongyfarchiadau i Mrs Lynwen Jenkins ar ennill gwobr 'Gwirfoddolwr Campau'r Ddraig 2010'. Cafodd ei anrhydeddu mewn Seremoni yn Aberystwyth ar ddiwedd tymor yr haf gyda Brynmor Williams yn eu gwobrwyo. Mae Lynwen yn rhedeg Clwb Campau'r Ddraig yn yr ysgol yn wythnosol ers rhai blyneddodd bellach. Llongyfarchiadau Lynwen.

Dechreuodd Idris Rees Lloyd o Fferm Esgair Inglis chwarae Pêl-droed i dîm Llanybydder pan yn 5 oed ac yn awr pan yn 8 oed mae wedi cael ei ddewis mewn twrnament yn ystod yr haf yn San Clêr i cael ei hyfforddi gan Dîm Pêl-droed Caerdydd. Mae'n ymarfer ganddynt yn wythnosol ac y bydd yn chwarae ei gêm gyntaf yn ystod wythnos dechrau Hydref. Pob lwc i ti Idris i'r dyfodol.

Ar ddechrau blwyddyn addysgol prysur arall hoffwn groesawu Beca Jones, Rhys Williams a Nathaniel Griffiths i ddosbarth y Babanod. Hefyd croesawn Mr Arwel Evans fel athro CPA ac hefyd Mrs Sally Price fel Arhrawes Addysg Arbennig. Gobeithio eich bod eich i gyd wedi setlo fewn erbyn hyn!!

Aeth nifer o blant draw i gefnogi digwyddiad cymdeithasol Ysgol Llanllwni ar nos Wener, Medi 10fed. Daeth y tîm Decathlon yn 1af a'r tîm Chwaraeon Potes yn 3ydd. Da iawn chi blant.

Bu disgyblion yr Adran Iau yng Ngŵyl Rygbi yn Llambled yn ystod y mis. Roedd hwn yn brofiad newydd i rai o'r disgyblion, ond mwynhawyd y profiad yn fawr iawn.

Cafwyd ymweliad gan Ntate Telee o Ysgol Mokotlong, Lesotho, De Affrica yn ystod yr wythnos 20- 24ain. Bu Mr Telee yn yr ysgol gennym dydd Llun a dydd Mawrth yn yr ysgol. Prynhawn dydd

Mercher roedd yna gyngerdd wedi paratoi gan Dolen Cymru yn Ysgol Gyfun Llambled. Bu disgyblion Bl. 5 a 6 yno yn gwneud Sioe Ffasiwn o'u gwisgoedd traddodiadau yn Lesotho. Ar y dydd Iau, bu'r disgyblion a'r staff ar daith i 'Big Pit' ym Mlaenafon a Chastell Cherrfili. Cafwyd ddiwrnod bendigedig yn teithio gwmpas De Cymru. I orffen y dydd cafwyd swper blasus yn y Buck Inn ym Mhontlliw ar y ffordd adre.

Ar ddydd Mercher olaf mis Medi cynhaliwyd cystadleuaeth Pêl-droed 5 bob ochr yr Urdd yng Nghanolfan Hamdden Llambled. Llongyfarchiadau i dîm yr ysgol a daeth i'r brig.

Anrhydedd

Llongyfarchiadau i Manon Richards, Lowtre ar gael ei hethol yn Is-Gadeirydd C.F.F.I. Ceredigion 2010 - 2011 yn ystod y mis. Pob dymuniad da i ti.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Megan Mai Jones, Blaenhedd, Blaencwrt, Llanwnnen ar ennill yn y gystadleuaeth Lefaru a thrydydd yn yr Unawd blwyddyn 3 a 4 yn Eisteddfod Tymbl 18 Medi 2010. Hefyd, i'w chwaer Nia Beca Jones am ennill y cystadlaethau Unawd a'r Llefaru blwyddyn 2 ac iau.



Megan Mai a Nia Beca Jones



Brynmor Williams a Lynwen Jenkins yn y seremoni.



Athro o Lesotho a disgyblion Ysgol Llanwnnen o flaen Castell Caerffili.



Disgyblion Ysgol Llanwnnen wedi'r Diwrnod Chwaraeon yn Llanllwni.



Tîm Pêl-droed Ysgol Llanwnnen enillodd cystadleuaeth Cylch Llambled



Idris Lloyd, Esgair Inglis gyda Thîm Pêl-droed Caerdydd.



Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf yn gyntaf yn 'Gwneud Mr Urdd'.

Yn y Gegin gyda Gareth



“Speis a Stêm”

Braf oedd cwrdd â chogyddion ‘Clonc’ yn ystod yr Haf wrth baratoi arddangosfeydd coginio mewn aml i ‘Ffair Fwyd’.

A’r Hydref yma, a’r tywydd yn troi, ychydig yn oerach, rwyf wedi penderfynnu troi at y cwpwrdd ‘speis’ i roi ychydig o gynhesrwydd – ‘speis, lliw, a blas i’r plat swper. Felly beth am fentro ar y rysetiau canlynol rwy’n sicr fydd o ddefnydd i chi drwy’r mis. Mwynhewch flas yr Hydref,

Gareth.

Eog gyda Mwstard a Llysiau.

Cynhwysion.

- 750gm o dato bach wedi’u haneri
- 1 llond llwy fwrdd o fwstard grawn
- 1 llond llwy de o bowdwr ‘chilli’
- Sudd un oren
- 2 lond llwy de o fêl
- 4 golwyth o eog di-asgwrn a di-groen
- 2 pupur coch wedi’u torri’n sribedu
- 250gm o bês ‘sugarsnap’
- 2 lond llwy fwrdd o olew’r olewydd



Dull

1. Trowch y ffwrn i 200°C. 400°F Nwy 6
2. Berwch y tato am tua 10 munud
3. Cymysgwch y mwstard, sudd oren, y mêl a’r speis, gorchuddiwrch yr eog a gadewch am ychydig
4. Dreiniwch y tato a’u rhoi mewn dysgyl addas i’r ffwrn gyda’r pupur a’r pês, sgeintiwch ag olew, cymysgwch a rhowch y pysgodyn ar ben y cyfan, yna’r sudd oren
5. Pobwch am 20 i 25 o funudau. Gweinwch a mwynhewch.

‘Korma cyw iar a speis’

Cynhwysion

- 2 lond llwy fwrdd o olew
- 6 morddwyd (thigh) cyw iar
- 1 llond llwy de o sinamon
- 1 llond llwy de o cwmin
- 1 winwnsyn wedi’i dorri’n fân
- 9 llond llwy fwrdd o iogwrt groegaidd
- 4 llond llwy fwrdd o bast cyrri
- 75 gm (3owns) o syltan



Dull

1. Trowch y ffwrn i 180°C 350°F Nwy 4. Cynheswch yr olew mewn padell gyda chlawr
2. Ychwanegwch y cig a ffriwch am 7 – 10 munud nes troi yn euraidd yna ychwanegwch y speis
3. Rhowch yr iogwrt, winwnsyn a’r past cyrri mewn prosesydd bwyd yna rhowch y gymysgedd yn y badell ffrio gyda’r syltan. Rhowch glawr ar y badell a choginiwch am tua 40 munud. Gwaenwch gyda reis.

O.N. Cofiwch hefyd y byddaf i a Hazel Thomas yn ymuno a chriw ‘Rheilffordd Bronwydd’ ac yn gwynebu sialens mewn ‘stêm!!’. Dyma’r manylion i chi -

‘Swper mewn steil ar drên stêm’

Nos Wener 29ain o Hydref – ymuno â’r trên am 7.00 y.h. am bryd 7 cwrs wedi’i goginio a’i weini mewn steil ar reilffordd Gwili, Bronwydd, gennyf i a Hazel. Am fanylion pellach cysylltwch â fi ar (01570 422 313). Profiad gwahanol ac unigryw wrth deithio’n ôl i foethusrwydd dauddegau y ganrif ddiwethaf.

HYSBYSEBU YN CLONC

“Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro.”

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.

£10.00 am floc bach. £30.00 am chwarter tudalen.

£50.00 am flwyddyn o flociau bach.

Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:

01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

MIS y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Pan fydd y miwsig yn peidio ...

Os ydi David Cameron yn gall, mi fydd yn cadw llygad gofalus ar y sefyllfa wleidyddol yn Llanwnnen a Llanwenog. Efallai’n wir y dylai roi galwad ffôn fach i ofyn am farn Haydn Lowtre.

Yn ystod y misoedd nesa’, mae’r Llywodraeth yn San Steffan yn bwriadu trio newid nifer y seddi yn Nhy’r Cyffredin a chael gwared ar tua 11 o’r seddi yng Nghymru.

Wel, unwaith eto mae ardal Clonc ar y blaen. Mae yna fwriad i newid nifer y seddi cyngor yma hefyd ac un o’r newidiadau’n effeithio ar wardiau Llanwenog a Llanbed.

Os ydw i’n deall yn iawn y bwriad ydi rhoi Llanwenog (sy’n cynnwys Llanwnnen a Chwrtnewydd hefyd) i mewn efo Llanbed. Yn lle tri chynghorydd, fel sydd ar hyn o bryd, fyddai gan yr ardal gyfan ddim ond dau.

Os bydd hyn yn cael ei dderbyn – a dyma ydi awgrym y Comisiwn Ffiniau – mi fydd pobol Llanbed, Llanwenog a Llanwnnen i gyd yn pleidleisio efo’i gilydd ac yn dewis dau gynghorydd ar gyfer y cyfan.

Ar bapur, efallai ei fod yn gwneud sens; yn y byd go iawn, mae’n gangymeriad ac mewn peryg o wneud cam â thrigolion y pentrefi gwledig. A fydd y cynllun newydd ddim yn cydnabod pwysigrwydd Llanbed yn ganolfan i ardal eang. Mae Llanbed yn fwy na’i ffigurau.

Mae hyn i gyd yn enghraifft o drio trefnu democratiaeth yn ôl ffigurau a mathemateg, yn hytrach na cheisio rhoi llais go iawn i bobol.

A dyna ydi’r union beryg i David Cameron hefyd wrth i’w Lywodraeth o geisio lleihau nifer yr Aelodau Seneddol. Un peth ydi dweud bod eisio llai o seddi; peth arall ydi trefnu hynny, yn enwedig yng nghefn gwlad.

Y broblem ydi fod rhaid i lefydd fynd gyda’i gilydd yn gyfforddus. Er mai Llanbed yw tref pobol Llanwenog a Llanwnnen, ac er mai tref fechan iawn ydi hi i bobol yng Nghaerdydd neu Lundain, mae hi’n llawer iawn mwy na’r pentrefi.

O ganlyniad, os ydi pawb yn cael eu rhoi gyda’i gilydd mewn un ward, fydd pethau ddim yn gyfartal. Waeth pa mor anodd y bydd y cynghorwyr newydd yn trio, mi fydd hi’n anodd iawn cadw’r ddysgl yn wastad.

Rhowch eich hun yn eich sgidiau nhw. Meddyliwch pe bai yna ryw ddadl yn codi ac angen gwario arian yn Llanwnnen ac yn Llanbed, ond does dim digon i wneud y ddau. Pwy fydddech chi’n ei gefnogi, cwpwl o gannoedd o bobol yn y pentref, neu gwpwl o filoedd yn y dre’?

Yn fathemategol, mae’r cynllun newydd yn edrych yn iawn – 1433 o bobol yn ardal Llanwenog ac 1933 yn Llanbed, dim gormod o wahaniaeth. Ac o dynnu’r ddwy ardal at ei gilydd o dan ddau gynghorydd, mi fyddan nhw’n cynrychioli 1,713 o bobol yr un, sy’n agos at y targed delfrydol.

Ond, anghofiwch y fathemateg ... yr hyn sydd gynnoch chi mewn gwirionedd ydi casgliad o bentrefi bach, ar un ochr, a thref ar y llall. A honno’n dref lle mae cannoedd o fyfyrwyr a phobol yn dod iddi i siopa o ganol Ceredigion i gyd.

Efallai bod modd lleihau nifer y cynghorwyr – bwriad y Comisiwn Ffiniau ydi gostwng y ffigwr yng Ngheredigion o 42 i 37 – ond allwch chi ddim gwneud hynny trwy roi llefydd anghymarus at ei gilydd. Mae democratiaeth yn dibynnu ar deimlad yn ogystal â math.

Os oes gynnoch chi deimladau cryf am hyn, mae yna gyfle i ymateb – trwy sgrifennu at y Comisiwn Ffiniau cyn 9 Tachwedd eleni.

Ond mi allai pethau fod yn waeth. Mae yna gorff o’r enw CACI (ia, anffodus iawn) wedi bod yn gwneud gwaith ar ffiniau newydd i etholaethau seneddol.

Maen nhw wedi defnyddio cyfrifiadur (be arall) i edrych ar Gymru ac, ymhlith pethau eraill, maen nhw’n cynnig sedd newydd o’r enw Aberystwyth ac Aberteifi. Mi fyddai Llanybydder yn rhan ohono ... a Chaeo ... a hyd yn oed Llanyddfry!



Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313

Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan



Llongyfarchiadau i bawb oedd ynghlwm â chanlyniadau lefel A a TAGU eleni. Cafwyd canlyniadau anhygoel, gyda 83% yn ennill y graddau uwch sef A-C, a 34% yn ennill graddau A* neu A. Dyma'r canlyniadau gorau yn hanes yr ysgol. Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion am eu hymdrechion a'u gwaith caled ac hefyd i'r staff am eu paratoadau trwyadl. Dyma'r disgyblion â'r canlyniadau gorau:

Aled Wyn Thomas, Rhian Thomas, Tomos Harries, Eden Davies, Seb Lee, Jane Davies a Victoria Lee.

Llwyddodd 78% o ddisgyblion Blwyddyn 11 i ennill o leiaf 5 gradd A*-C. Dyma'r canlyniadau TGAU gorau yn hanes yr ysgol. Pob clod iddynt am gynnal y safon ardderchog yma a diolchwn hefyd i'w hathrawon am eu hymroddiad a'u harweiniad.

Dyma'r disgyblion gafodd y canlyniadau TGAU gorau : Fiona Messer 9* 2A; Bethan Hardy 4* 3A 4B; Libby Jones 6* 5A; Althea Sandover 3* 8A 1B; Daniel Edwardes 6* 4A 2B; Savannah Davies 3* 6A 1B; Ruth Davies 5* 6A; Adam King 2* 5A 2B; Nicola Miles 5* 6A 1B; Lisa Thomas 1* 6A 4B; John Janes 4* 4A 2B; Carwen Richards 1* 8A.

“Rwyf i wrth fy modd bod brwdfrydedd, ymrwymiad a gwaith caled y disgyblion wedi ei wobrwyo gyda chanlyniadau gwrioneddol dda. Hoffwn longyfarch y disgyblion ar eu llwyddiant, a chydabod safon y dysgu a'r anogaeth mae nhw wedi ei dderbyn gan staff yr ysgol, a'r gefnogaeth roddwyd gan rieni.

Mae 80% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn dychwelyd i'r ysgol i astudio lefel A. Dymuniadau gorau i'r rhai sy'n symud i addysg bellach ac i fyd gwaith.”

Dylan Wyn (Prifathro)

Estynnwn groeso cynnes i'r ysgol i bum aelod newydd o staff sef Wendy Thomas, Pennaeth yr Adran Gelf, Nerys Douch fydd yn dysgu yn yr Adran Ddylunio a Thechnoleg, Robyn Hickling fydd yn cyflenwi yn yr Adran Wyddoniaeth, Catrin Jarman fydd yn cyflenwi yn yr Adran Saesneg a Cerian Phillips fydd yn cyflenwi yn yr Adran Addysg Gorrfforol.

Croesawn hefyd Heini Thomas i'n plith fel llyfrgellydd dros dro a Josie Jones fel cynorthwydd dosbarth.

Llongyfarchiadau i Mr Dafydd Charles ar ei benodiad yn Bennaeth Cynorthwyol, i Mr Deiniol Williams ar ei swydd fel Cydlynnydd Sgilau Hanfodol ac hefyd i Miss Geinor Jones ar ei phenodiad yn Gydlynnydd Datblygu Cynladwyaeth a Dinasyddiaeth Fyd Eang.

Penodwyd Mr Tim Jenkins hefyd yn Fentor Blwyddyn 12 a 13.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr Dylan Jones ar enedigaeth Huw ac i Mr Deiniol Williams ar enedigaeth Brychan.

Bu wythnos gynta'r tymor yn un brysur iawn i'r flwyddyn 12 newydd. Yn ystod yr wythnos, cafwyd diwrnod mentergarwch, a thaith i Ganolfan Gweithgareddau Llain.

Mae'r ymarferion ar gyfer y sioe “Annie” yn parhau. Cynhelir y sioe ar Hydref 19, 20, 21. Fe fydd tocynnau ar werth o'r ysgol o Hydref 4ydd. Ni dderbynir archebion dros y ffôn.



Bu un o athrawon ysgol St James High yn Lesotho yn ymweld â'r ysgol yn ddiweddar, fel rhan o'r cynllun Dolen Cymru Lesotho. Bu'n mynychu gwersi yn ystod yr wythnos ac yn cyfarfod â disgyblion ac aelodau staff. Cynhaliwyd cyngerdd yn neuadd yr ysgol hefyd i groesawu'r ymwelwyr o Lesotho ac fe fu nifer o ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan.

Llongyfarchiadau i'r merched canlynol a fu'n llwyddiannus yn nhreialon hoci Ceredigion:- Dan 18 Carwen Richards, Lisa Thomas, Jodie Thomas, Alaw Williams. Dan 16 Sioned Douglas, Sioned Davies. Dan 14 Delyth Evans.

Llongyfarchiadau mawr i Kyle Collins Ward o flwyddyn 12 ar ennill medal aur yn y ras gyfnewid ym Mhencampwriaeth Athletau Cymru dros yr haf.

Sarn Helen



Rasus mynydd oedd ras Beca a ras y mochyn du a chafwyd ei chynnal ar ddydd Sadwrn gŵyl banc Awst, Carwyn Thomas yn gorffen yn y 5ed safle mewn 37 munud 09 eiliad, 11 Glyn Price 40 munud 20 eiliad, 12 Andrew Abbott 41 munud 04 eiliad, 24 Calvin Jones 45 munud 23 eiliad, 36 Gwydion Williams 48 munud 50 eiliad, 46 Eric Rees 51 munud 05 eiliad, 67 Caryl Davies 55 munud 28 eiliad. Ennillwyd y tîm athletau gan Carwyn Thomas, Glyn Price, Andrew Abbott a Calvin Williams. Hefyd cystadlodd Dafydd a Daniel Lewis a Matthew Small yn ras y mochyn du i'r plant. Ar ddydd Sul canlynol ras 10K yn St. Clears, 9 Gethin Jones 40 munud 16 eiliad, 39 David Thomas 45 munud 34 eiliad, 49 a 2il menywod agored Sian Roberts-Jones 48 munud 39 eiliad, 56 a 3ydd menywod agored Caryl Davies 50 munud 07 eiliad, a 82 Allen Watts 1 awr 28 munud 15 eiliad.

Ras ysgol Treflan, Talsarn, merched 8 – 11 oed, 1af Sara Jones 5 munud 32 eiliad, 2il Rebecca Harrison 5 munud 43 eiliad, 4ydd Cari Jones 5 munud 58 eiliad, 7fed Heledd Jenkins 6 munud 12 eiliad, a cynaf i Ffion Quan o

dan 18. Bechgyn 8 – 11 oed 2il Thomas Willoughby 4 munud 53 eiliad, 4ydd Robert Jenkins 5 munud 25 eiliad, 6ed Daniel Willoughby, 8fed Matt Small, 10fed Sion Evans, a 11fed Dafydd Evans. Bechgyn dan 18 2il Gwydion Williams 28 munud 32 eiliad. Menywod agored 1af Dee Jolly 30 munud 28 eiliad, menywod 35 1af Helen Willoughby. Dynion agored 1af Carwyn Thomas 23 munud 10 eiliad, 2il Simon Hall 25 munud 33 eiliad, 4ydd Mike Palmer 30 munud 08 eiliad. Dynion 40 1af Glyn Price 22 munud 52 eiliad, 21il Daniel Hooper 24 munud 50 eiliad, 3ydd Tony Hall 26 munud 54 eiliad.

Hanner marathon Llyn Vyrnwy Dawn Kenwright yn cypio y wobwr gyntaf yn ei chategori mewn 1 awr 35 eiliad, ac yn hanner marathon Dinbych Y Pysgod Caryl Davies yn cael yr ail wobwr yn ras menywod agored mewn 1 awr 49 munud, ac David Thomas yn rhedeg y marathon hefyd yn Ninbych y Pysgod mewn 3 awr 39 munud. Tri aeold o'r clwb wedi cystadlu Dyfi 8, 6ed Simon Hall 56 munud 19 eiliad, 10 a 1af dynion 55 Tony Hall 58 munud 06 eiliad, a 32 Caryl Davies awr a 11munud.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC



Wedi haf prysur iawn oedd yn cynnwys ymweld â nifer o sioeau lleol, fe gyrhaeddodd mis Medi yn syndod o gyflym. Wrth gwrs, dyma fis cynhadledd fawr y Blaid ac eleni fe'i cafwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Daeth torf dda at ei gilydd drwy gydol y tridiau i glywed sawl araith a thrafod pynciau mawr y dydd, ac rwy'n edrych ymlaen at gael y gynhadledd yn ôl i Geredigion eto yn y dyfodol..

Yn ogystal â'r Gynhadledd, fe fues mewn nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir, o agoriad arddangosfa gelf yn Amgueddfa Aberystwyth i agor peiriant newydd cwmni Teifi Concrete yn Llanwnnen.

Digwyddiad pwysig arall ym mis Medi yw dechrau'r flwyddyn academiaidd yn ein colegau. Mae cannoedd o fyfyrwyr newydd eisoes wedi

cyrraedd ein sefydliadau yn Aberystwyth a Llambod, a hoffwn estyn croeso cynnes iddynt i'r ardal. Yn yr un modd, hoffwn ddymuno'n dda i'r rheiny fydd yn gadael Ceredigion i fynd i astudio mewn prifysgol y tu allan i'r sir.

Yn olaf, fe gafwyd cyhoeddiad pwysig yn ddiweddar ynghylch dyddiad posib ar gyfer y Refferendwm i symleiddio'r broses o ddeddfu yn y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno mai ar y 3ydd o Fawrth 2011 y dylid cynnal y bleidlais honno, ac mae disgwyl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ystyried y cynnig hwn yn awr. Rhwng y Refferendwm ac Etholiadau'r Cynulliad, fe fydd 2011 yn sicr y flwyddyn wleidyddol brysur iawn yng Nghymru!

Gohebiaeth Clonc



Toriadau i gyllid S4C yn fygythiad i lais ein cymunedau yng Nghymru.

Mae'r cyhoeddiadau diweddar fod S4C yn paratoui ar gyfer toriadau helaeth yn ei grant o filiwn o bunnoedd gan y DCMS yn Llundain yn destun pryder i nifer ohonom yng Nghymru. Petaen nhw'n digwydd, fe fyddai toriadau o'r fath yn ergyd aruthrol i Gymru ac i fywyd diwylliannol Cymru yn gyffredinol.

Ers ei sefydlu yn 1982, mae'r sianel wedi esblygu'n helaeth ac mae hi bellach wedi ennill ei phlwyf yn nhirwedd digidol newydd y byd darlledu. Mae hi'n un o gannoedd o sianeli sy'n darlledu'n gwbl ddigidol o fewn Cymru ar Freeview a Virgin, ac ar draws y Deyrnas Unedig drwy Sky ac ar ei gwefan www.s4c.co.uk. Ac eto, hi yw'r unig sianel ar draws y byd sy'n darlledu trwy gyfrwng y Gymraeg.

Beth sydd wedi dod yn sgil creu'r sianel?

Yn gyntaf, crëwyd nifer o gwmnïau bychain i'w gwasanaethu, ac mae rhai ohonynt wedi datblygu i fod yn gwmnïau dylanwadol yn y diwydiant dros y Deyrnas Unedig. Cwmnïau fel Tinopolis a Boomerang. Ond yn bwysicach, mae'r cwmnïau hyn yn gyfrifol am gyflogi cannoedd o amrywiol staff ac yn gyflogwyr allweddol mewn nifer o gymunedau ledled Cymru.

Yn bwysicaf oll, mae S4C wedi cynnig llais i 600,000 a mwy o bobl sy'n medru'r iaith lle mae dirfawr angen hynny. Mae'n cynnig cyfle i ddysgwyr glywed y Gymraeg ac mae nifer o raglenni yn boblogaidd iawn gyda Chymry Di-Gymraeg yn ogystal. Llais i fynegi'r hyn sy'n unigryw am y Gymru fodern yw S4C. Pa sianel arall sy'n gwneud hynny'n effeithiol?

Nid gwneud toriadau i sianel arferol fyddai gwneud toriadau i S4C, ond toriadau i sianel sydd wedi ei chreu er mwyn rhagfarnu'n gadarnhaol o blaid iaith leiafrifol sy'n gwbl ddibynol ar sefydliadau fel S4C er mwyn cynnal diwylliant. Mae'r toriadau hyn yn fygythiad i leisiau ein cymunedau ni, ac i'n hunaniaeth ni ar y sgrin. Mewn oes lle mae presenoldeb ar y teledu a'r we fyd eang yn holl bwysig, mae llywodraeth San Steffan yn bygwth gwanhau llais y Gymraeg ar y cyfryngau hynny. Pe bai'r toriadau hyn yn dod i rym, byddai llai o wynebau a lleisiau ein cymunedau ni i'w gweld a'u clywed ar y sgrin.

Beth allwch chi wneud? Mae amser yn brin ond mae rhai pethau y gallwch chi wneud HEDDIW -

Gallwch ymuno gyda'r grŵp facebook - Na - i Doriadau yng nghyllideb S4C neu gallwch anfon llythyr yn mynegi eich pryderon yn syth at Jeremy Hunt. Dyma'r cyfeiriad:

Rt Hon Jeremy Hunt MP, Secretary of State for Culture, Olympics, Media and Sport
2-4 Cockspur Street, Llundain, SW1Y 5DH

Awdur o Wrecsam â'i wreiddiau yn ddwfn yn y cylch yma.

Er treulio rhan fwyaf o'i fywyd yn gweithio yn Lloegr ac ardaloedd di-Gymraeg yng Nghymru, dychwelyd i'w gynefin yng Ngorllewin Ceredigion wnaeth yr awdur John Gwynne am leoliad addas i'w nofel gyntaf 'Ar Lan Y Môr y mae....'

Yn y cylch yma mae'r digwyddiadau cyffrous a rhamantaidd yn cymryd lle wrth i'r stori ddilyn hanes yr estron rhyfedd o Sais a'r dirgelwch sy'n ei amgylchi. Does neb yn sylweddoli fod Ditectif Chief Superintendent Alun Morgan o Sgotland Iard yn cuddio am ei fywyd dan enw ffug ym mhentref bach anghysbell Pwll Gwyn, ar arfordir Ceredigion. Does neb yn sylweddoli ei fod wedi ei eni a'i fagu yn y cylch.

'Gwrthdrawiad rhwng ei ddau fyd a welai wrth syllu ar y môr glas a'r traeth euraidd tawel, byd hapus a diniwed ei ieuencid yn taro yn erbyn creulondeb a pheryglon ei fyd presennol.'

Cafodd ei erlid o Gymru yn ddeunaw oed ar ôl i'w rieni cael ei lladd mewn damwain ar ei fferm. Nawr, ac yntau yn ddeugain mae yn ffoi am ei fywyd unwaith eto i guddio rhag dialedd ei elynion yn is-fyd Llundain. Does neb yn gwybod fod Alun Morgan wedi dychwelyd i'w gynefin ar ôl dwy flynedd ar hugain.

Ond ym Mhwl Gwyn, o dipyn i beth, mae'r gorffennol yn ail gydio yn ei fywyd wrth i'r atgofion mae wedi cuddio i ffwrdd yn bwrpasol dros amser yn mynnu dod i'r golwg unwaith eto. Pan mae'n clywed bod Elisabeth Williams, ei gyn gariad, wedi dychwelid i'r ardal ac yn athrawes yn Llandysul, mae'n gwbod y bydd yn rhaid iddo fynd i chwilio amdani er nad yw'r ddau wedi gweld ei gilydd am dros ugain mlynedd. Mae gweithgareddau llym yr is-fyd yn gwneud i'w fantell guddiedig gwmpo i ffwrdd ac mae'n rhaid i'r gwir ddod allan.

Ond pam oedd yn rhaid i Alun Morgan ddianc o Lundain yn y lle cyntaf? A beth oedd y berthynas rhyngddo ef ac Elisabeth Williams a pham wnaeth y ddau wahani a hwythau wedi bod mor agos ers yn blant? Pe byddai'r ddau yn digwydd cyfarfod eto beth fyddai ei hymateb tuag at ei gilydd? Pe byddai'r is-fyd yn dod o hyd i Alun Morgan, beth fyddai'r canlyniad? A pam mae tair merch ifanc wedi ei llofruddio ar hyd arfordir tawel Bae Aberteifi a beth yw hanes y ferch ifanc sydd wedi diflannu o'i chartref ym Mhwl Gwyn? Beth yw diddordeb yr hen Gaptin Williams, y dyn rhyfedd sy'n crwydro traeth Pwll Gwyn yn gyson? A sut fydd yr heddlu lleol yn ymdopi ar holl ddirgelwch?

Mae'r atebion i gyd tu mewn i glawr lliwgar 'Ar Lan Y Môr y mae...' sydd wedi ei hysgrifennu mewn modd sydd yn hawdd i'w darllen a bron y byddwch yn methu rhoi'r llyfr i lawr unwaith y byddwch wedi dechrau ei ddarllen. Mae'r digwyddiadau cyffrous yn hedfan o Lundain i Bwll Gwyn cyn mynd i fyny i'r Cei ac ymhellach fyth i Aberaeron ac Aberystwyth ac wedyn dod yn ôl heibio i bont Henllan, Drefach Felindre, Castell Newydd Emlyn a Llandysul cyn dychwelyd yn y diwedd i Bwll Gwyn.

Ond beth sydd i ddisgwyl? Yn yr ardal yma wnaeth John Gwynne, neu John Williams i ddefnyddio ei enw iawn, dyfu i fyny. Tybed oes 'na un neu ddau gymeriad yn y stori yn debyg i rhywun fydddech chi'n adnabod!


Cafodd yr awdur ei addysg cynnar cynnar yn hen ysgol Aberbanc cyn symud i Bontgarreg ac yn hwyrach i Landysul. Felly o Ysgol Ramadeg Llandysul yr aeth yn fyfyrwr i Lundain yn ddeunaw oed gan adael llawer ffrind a sawl perthynas ar ôl yn yr ardal yma. Mae'n cyfadde ei fod wedi colli cysylltiad ac amryw un ohonynt ac mi fyddai yn falch i glywed wrthynt.

'Nid ysgrifennu gwaith llenyddol trwm yw fy mwriad,' meddai, 'mae 'na ddigonedd o awduron sy'n lawer gwell na fi ar gael i wneud y gwaith yma. Na, fy mwriad yw sgwennu nofelau ysgafn gyda stori dda byddai pobol fel fi yn medru ei darllen mewn fyr amser. Stori byddai'n apelio i'r rhai sydd ddim yn darllen llawer y dyddiau yma, ac yn arbennig i rhai sydd wedi colli yr hyder a'r dymuniad i ddarllen nofel Gymraeg, fel wnes i tan yn ddiweddar.

'Mi gefais bleser mawr wrth ysgrifennu'r gyfrol yma, gweld y dirgelwch yn tyfu a'r cymeriadau yn cael eu creu ac yn datblygu, cymeriadau nad oedd neb wedi clywed amdanynt o'r blaen. Er nad yw hon yn hunangofiant o bell ffordd, daeth atgofion melys i'm cof wrth ei hysgrifennu.'

Mae yna nofel arall ar y gweill yn barod sydd yn ddilyniant i'r gyfrol hon. Dywed yr awdur y bydd 'Atsain y Tonnau' yn barod i'w lansio yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam y flwyddyn nesaf.

Mae 'Ar Lan Y Môr y mae...' ar werth mewn siopau llyfrau Cymraeg - pris £4.75.



Alec Page Gof



Gwaith metal o safon
i'r tŷ a'r ardd.

Dewch i drafod eich syniadau.

Yr Efail, Barley Mow,
Llambled.

01570 423955

AWILLIAMS

CONTRACT SERVICES CYF

Peirianau Hirio, Peirianwyr
Cyffredinol, Gwaith Sylfaen,
Menage, Tirlunio, Garddio,
Ffensio, Adeiladu a Gwaith
Cynnal a Chadw

Symudol: 07896747951

Ffôn: (01559)362575

Ffacs: (01559)363555

Tŷ Mari, Heol Horeb,
Llandysul SA44 4JN

e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk

Y we: www.williamscontractservices.co.uk

T. Emyr Jones Adeiladwr



Araul, Cwmann

01570 423921

07867 945174

CANOLFAN ADDURNO

AA

A

Dewis arbennig o bapur, paent ac
offer i wneud addurno yn bleser.

Llyfrau Patrwm, Offer llaw a
phwerus, Polion a thraciau llenni,
gwasanaeth torri allwedd i
pheirianau cymysgu paent
Dulux a Leyland.

Arbenigedd ar garreg eich drws.

3 Stryd y Bont

Llanbedr Pont Steffan

01570 423156

Cludfwyd Indiaidd

NEHAR



Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.

15% o ostyngiad
ar archebion dros £10.00.

Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o
weithio mewn sefydliad indiaidd.

10 Stryd y Bont, Llambled

01570 422893 / 422175

Ymaelodi 2010 - 2011

Cofiwch eu bod hi'n bryd ymaelodi am flwyddyn arall yn hanes yr Urdd. Pris aelodaeth am y flwyddyn 2010 – 2011 yw £6.00 yr aelod cyn 22ain o Hydref 2010, neu £6.50 ar ôl hynny. Neu £16.50 i aelodaeth teulu o 3 blentyn neu fwy.

Pêl-droed 5 bob ochr

Cynhaliwyd cystadleuaeth Pêl-droed 5 bob ochr y Cylch yng Nghanolfan Hamdden Llambled ar ddydd Mercher, Medi 29ain. Dyfarnwyd y gêmâu gan Rhydian Jenkins, Swyddog Datblygu Cynorthwyol yr Urdd yng Ngheredigion. Diolch i'r dair ysgol am fynychu sef Cwrtnewydd, Llanllwni a Llanwnnen. Pob lwc i Ysgol Llanwnnen - y tîm buddigol yn rownd Rhanbarth Ceredigion yn ystod mis Hydref.

Ysgoloriaeth Bryn Terfel

A hithau'n ddechrau tymor yr Hydref, mae golygon wyth o enillwyr Eisteddfod yr Urdd, Ceredigion yn troi at un o brif wobrau celfyddydol ieuencid Cymru sef Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru. Eleni bydd wyth o berfformwyr hŷn, disgleiriaf yr Eisteddfod yn ymgiprys am y wobwr hael o £4,000 ond yn fwy na hynny, y clod a'r bri a ddaw yn ei sgil.

Mae'r criw talentog eisoes yn ymarfer ar gyfer y Cyngerdd mawreddog sy'n benllanw gweithgareddau'r Ysgoloriaeth ac sydd i'w gynnal eleni ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid, nos Sul y 17eg o Hydref am 7 o'r gloch.

Un o'r wyth fydd yn cystadlu fydd Ceirios Haf Evans sy'n hanu o Lanarth, Ceredigion nid nepell o safle Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni yn Llanerchaeron lle y daeth i'r brig yn y gystadleuaeth Alaw Werin unigol rhwng 19 a 25 oed.

Mae Ceirios newydd raddio o Goleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru ac am gymryd blwyddyn oddi wrth astudio cyn ailgydio ynddi'r flwyddyn nesaf gyda'r gobaith o astudio cwrs ôl-radd yn y Coleg Brenhinol yn Llundain. Ond fydd Ceirios ddim yn segur dros y deuddeg mis nesaf, bydd yn brysyr yn cynnal cyngherddau ac yn rhoi gwersi telyn.

"Dwi'n gyffrous iawn mod i am gael y siawns i gystadlu am yr Ysgoloriaeth bwysig hon. Mae'n gyfle gwych," medd Ceirios sy'n 22 oed. "Roedd fy ffrindiau yn y Coleg hefyd yn falch iawn drostaf ac roedd yn gyfle i mi gael egluro wrth rai ohonynt am arwyddocâd yr Urdd a'r cyfleoedd sy'n dod yn sgil bod yn aelod."

Yn ymuno â Ceirios bydd: Eirlys Myfanwy Davies o Lanelli - Enillydd yr Unawd 19 – 25 oed; Glesni Fflur o'r Bala. Enillydd yr Unawd Cerdd Dant 19 – 25 oed; Elgan Llyr Thomas o Landudno - Enillydd yr Unawd allan o Sioe Gerdd 19 – 25 oed; Jocelyn Freeman o Dŷ Ddewi - Enillydd yr Unawd Offerynnol 19 – 25 oed; Teleri Mair Williams o Lynfaes, Ynys Môn - Enillydd y Cyflwyniad Theatrïg Unigol 19 – 25 oed; Elen Gwenllian Clwyd o Gaernarfon - Enillydd y Llefarydd Unigol 19 – 25 oed a Cerian Phillips o Gynwyl Elfed - Enillydd y Ddawns Werin 15 – 25 oed.

Mae tocynnau ar gyfer y Cyngerdd yn £10 ac ar werth o Bafiliwn Pontrhydfendigaid – www.pafiliwnbont.co.uk neu drwy ffonio 01974 831 635

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Machynys Machynlleth a Mallaen

Mae Machynys, ger Llanelli yn perthyn i ddosbarth o enwau lleoedd sy'n cynnwys yr elfen 'ma' + enw person. Yr elfen 'ma-', yw'r elfen sy'n digwydd yn ddechreuol mewn geiriau fel 'maes', ac (yn dreigledig) ar ddiwedd gair fel 'morfa', a 'porfa'; mae'n dynodi naill ai wastatedd neu dir agored. Ystyr 'morfa' yw gwastatir gwlyb ar lan y môr. A'r Morfa yw'r enw ar y rhan honno o Lanelli sy'n ffinio'n uniongyrchol â Machynys.

Mae traddodiad lleol yn ardal Llanelli sydd am gysylltu'r enw lle Machynys â'r enw cyffredin 'mynachlog'; ac weithiau'n mae rhai haneswyr lleol yn mynd gam ymhellach na hynny, hyd yn oed, gan honni bod yr enw Machynys yn brawf o fodolaeth sefydliad eglwysig cynnar yn yr ardal. Nid dadlau na fu sefydliad o'r fath yn yr ardal yw bwriad y sylwadau hyn, ond ceisio dangos na ellir defnyddio'r enw Machynys i gynnal y ddamcaniaeth honno.

Felly mae gennym ni yng Nghymru ddosbarth o enwau lleoedd sy'n cynnwys yr elfen 'ma-': Machen, Machynlleth, Machynys. Ac mae'r ail elfen yn yr enwau hyn wedi'i threiglo'n laes. Mae'r ail elfen yn Machen yn coffâu Cein neu Cain, un na ellir dweud dim amdani. Ac enw personol yw Cynllaith hefyd. Digwydd y cyfeiriad cynharaf at 'Machynllaith' yn 1201-13. Ac ystyr Machynllaith (Machynlleth erbyn hyn) yw 'gwastatir neu dir agored yn perthyn i Cynllaith'. Ni ellir cysylltu Cynllaith, ychwaith, â pherson penodol o gig a gwaed.

Yn achos Machynys (Llanelli) yr ystyr yw 'tir neu wastatedd sy'n perthyn i Cynys'. Nid oes modd cysylltu'r enw Cynys â pherson penodol erbyn hyn. Enw arall yn Sir Gaerfyrddin sy'n perthyn i'r un dosbarth yw Mallaen sef 'tir neu wastatedd yn perthyn i Laen'. Mae cofnod am yr enw Mallaen yn Sir Gaerfyrddin yn 1257 a chofnod am Mynydd Mallaen yn 1596. Ac mae'r un elfen, sef 'llaen' yn digwydd yn Porthdinllaen; ac mae Gilfach Laen yn digwydd yn Sir Fôn. Yr un enw, ond byddai'n afresymol sôn am yr un person – wedi'r cyfan rhy'n ni'n sôn am gyfnod cyn dyfeisio beic heb sôn am fotobeic! Ond mae Llaen, pwy bynnag oedd e, yn cael ei goffâu hefyd yn Cwmwd Mallaen yng Nghantref Mawr ac yn Rhiw Mallaen yn Cil-y-cwm..

Enw arall yn Sir Gaerfyrddin sy'n berthnasol i'r drafodaeth yw Mahathan ym mhlwyf Llanarthne. Mae'r ffurf gynharaf ar yr enw wedi'i chofnodi yn 1291 ac awgryma'r ffurfiau cynharaf sydd gennym ar glawr y ffurf Machathan. Yr elfennau yn hwnnw yw 'ma-' sef maes, gwastatir a'r enw 'cathan' a hwnnw wedi'i dreiglo fel yn achos enwau megis Machynllaith, Machynys etc. Os yw Cathan yn y cyfuniad Machathan yn enw personol, mae'n bosibl y dylid ei gysylltu â'r Cathan, Cathen a geir yn Llangathen, enw'r plwyf sydd yn ffinio â Llanarthne. Mae'r enw personol Cathen neu Cathan yn digwydd yn ogystal yn Catheiniog neu Cetheiniog sy'n cynnwys y terfyniad '-iog' sy'n dynodi tiriogaeth. Ystyr Catheiniog felly yw 'tiriogaeth yn perthyn i Cathan'. Mae'n bosibl bod modd cysylltu'r enw â Cathen ap Gwlyddien un o hen arwyr de-orllewin Cymru.

Ond mae posibilrwydd arall yn codi yn achos Machynys oherwydd ff digwydd ffurf arall ar yr enw, sef Bachynys. Ac o ystyried tirlun yr arfordir nid yw 'bach', sef ffurf bwa ac 'ynys' sef dŵl, yn ffurf y dylid ei hanwybyddu'n llwyr. Ond wedi pwyso a mesur Machynys yn erbyn Bachynys rhaid dychwelyd at Machynys: mae Machynys yn ffurf henach o lawer ac am gyfnod byr yn unig y bu Bachynys yn cael ei arfer.

At hyn mae digon o dystiolaeth fod 'ma-' yn aml yn amrywio â 'ba' fel yn Bachynlleth (Machynlleth) a Bathafarn (Mathafarn).

Y tro nesaf, byddaf yn ystyried dynaid o enwau yn ardal Llanybydder a Phencarreg.



Ceris Morgan yn trin gwallt yn eich cartref



Tori a sychu, steilo a lliwio, cwilo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613

Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Cefn-hafod

Gorsgoch
01570 434238



Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariâu symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

Mwnci ffwnci



Brodweithio a Phrintio Dillad. Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.

Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambled

01570 423135

07811917799 /

07968821035

mwnciffwnci@hotmail.com

COMPASS OFFICE SUPPLIES

Am eich holl ddeunydd swyddfa

Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambled, Heol Tregaron,
Llambled.

01570 422955

01570 422232



Toriad Taclus



Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425



Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Wel mae Hydref wedi cyrraedd ac mae'r dail yn dechrau newid eu lliwiau. 'Dw i ddim yn hoff iawn o'r tywydd oer yma felly 'dw i wedi bod yn cadw'n brysur yn ceisio rhoi trefn ar fy nghartref newydd. Erbyn hyn mae enw ar y tŷ hefyd sef Llys Lincyn. Ydych chi'n hoffi'r enw?


Bu nifer helaeth ohonoch yn brysur iawn yn ystod y mis diwethaf yn lliwio llun fy nghartref newydd ac mae'n rhaid dweud, roedd pawb wedi gwneud ymdrech fawr. Da iawn chi gyd! Roedd rhai lluniau wedi teithio yn bell iawn a diolch arbennig i Joshua a Lili Peyto o Gaint ac hefyd i Owen Heath o Lamed am luniau gwych. Ond yr enillydd y mis hwn yw Cara Medi Rowcliffe, 1 Teifi Terrace, Llanbedr Pont Steffan. Llongyfarchiadau mawr i Cara a phawb wnaeth gystadlu. Ewch ati nawr i liwio llun fy ffrind Wil y Wiwer sy'n brysur iawn yn hel cnau yn ystod yr hydref. Danfonwch nhw ataf i cyn diwedd y mis.

Hwyl am y tro



**Enillydd
y mis!**

**Cara
Medi
Rowcliffe**



Enw:

Cyfeiriad:

Calendr Clonc

I bawb dan 18 oed



Cyfle i Ffotograffwyr Ifanc

Bwriada Clonc gyhoeddi Calendr ar gyfer y flwyddyn 2012 gan gynnwys llun gwahanol i bob mis. Y gobaith yw y bydd y calendr ar werth yn nhymor yr Hydref 2011.

Yn wahanol i'r calendr diwethaf a gyhoeddwyd gennym nôl yn yr wythdegau, lluniau lliw cyfoes a gynhwysir y tro hwn. Gofynnwn i bobl ifanc fynd ati i dynnu lluniau gyda'u camerau digidol o olygfeydd yn yr ardal.

Am y flwyddyn nesaf, bydd cystadleuaeth ffotograffiaeth fisol yn Clonc. Gofynnir am lun o olygfa yn yr ardal am yr amser hwnnw o'r flwyddyn.

Yn y rhifyn hwn, rhifyn Hydref, rydym yn chwilio am luniau diwedd yr haf. Ac yn y rhifynau nesaf bydd angen lluniau i gynrychioli'r Hydref, Gaeaf a'r Gwanwyn.

Gall y llun fod yn olygfa yn y pentref neu'n olygfa wledig, gall gynnwys anifeiliaid y ffarm neu bobl leol mewn digwyddiad fel carnifal, mart, ffair neu sioe. Anogir chi i fynd ati i dynnu digon o luniau. Bydd hi'n bwysig bod cynrychiolaeth o bob pentref dalgylch Clonc yn y calendr terfynol.

Rhoddir gwobr arbennig bob mis i'r llun gorau a bydd panel o Fwrdd Busnes Clonc yn dewis y lluniau mwyaf addas ymhen blwyddyn i'w cyhoeddi yn y calendr.

Wrth gystadlu, bydd pob cystadleuydd yn rhoi'r hawl i Clonc ddefnyddio'u lluniau i'w cyhoeddi yn y calendr. Gwerthir y calendr wedyn er mwyn codi arian i goffrau'r papur bro.

Derbynnir y lluniau ar ffurf jpg ar ddisg neu e-bost yn unig, heb eu lleihau. Danfonwch eich disg i Tŷ Cerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET, neu danfonwch y llun yn uniongyrchol drwy e-bost i cystadleuaeth@clonc.co.uk Dyddiad cau derbyn lluniau'r mis hwn yw: **Dydd Iau 21ain Hydref.**



Negeseuon

Galw Corau Cymru

Cyhoeddodd S4C yn ddiweddar y bydd cystadleuaeth boblogaidd Côr Cymru yn dychwelyd yn 2011.

Cynhelir y rowndiau cyn-derfynol ar benwythnos Mawrth 4ydd – 6ed 2011, a'r rownd derfynol ar Sul, Ebrill 10ed 2011 yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Bydd pob côr sy'n cyrraedd y rowndiau cyn-derfynol yn derbyn gwobr o £500 a bydd enillwyr y categorïau uchod yn derbyn gwobr o £1,500, ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am y teitl Côr Cymru 2011 a'r brif wobwr o £5,000.

Bydd y corau'n cael ei recordio ar draws Cymru ym mis Tachwedd 2010, ac mae'r dyddiad cau am geisiadau ar Hydref 8ed. Mae pump categorï yn y gystadleuaeth, corau plant, ieuenctid, merched, meibion a chymysg. Os am fwy o wybodaeth, ffoniwch Rondo ar 029 2022 3456 neu ymweld â www.rondomedia.co.uk

Rondo, 60 Severn Grove, Canton, CAERDYDD, CF11 9EP

T:+44(0)2920 223456 F:+44(0)2920 377746

Camera ar eich ffôn?

Dyma rif ffôn Papur Bro Clonc - **07837 447122.**

Os ydych yn gweld cyfle am lun a fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr Clonc, tynnwch lun gyda'ch ffôn symudol a'i ddanfon mewn neges destun i'r rhif ffôn uchod.

CYFRI

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

**Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd,
Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.**

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS

Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynnyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

LAS

Recycling Ltd



Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol
neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrtas
Rhowch alwad i ni
ar 01570 421421

Ffordd Tregaron, Llambod, Ceredigion, SA48 8LT

ELIN JONES Aelod Cynulliad Plaid Cymru — Ceredigion



*Mae Elin Jones yn
cynnal cymorthfeydd rheolaidd
ar draws Ceredigion.*

*I wneud apwyntiad, cysylltwch â
swyddfa'r etholaeth yn Aberystwyth:*

Elin Jones AC
01970 624 516
elin.jones@wales.gov.uk
32 Heol y Wig, Aberystwyth, SY23 2LN

Fflatiau newydd I'w gosod

1 a 2 ystafell wely i bobl dros 55 oed

Yn barod mis Hydref 2010. Cwm Aur, Llanybydder

Byw yn annibynnol

Bydd Cwm Aur yn eich siwtio os hoffech gadw preifatrwydd eich cartref
eich hun ar yr un pryd â chael chymorth wrth law os oes ei angen.

Mae'r cynllun yn cynnwys:

- bwyty
- ystafell diddordebau, lolfa a llyfrgell
- ystafelloedd trin gwallt a thriniaeth
- storfa sgwteri trydan
- gerddi wedi'u tirlunio

Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o
nodweddion arbed ynni a fydd yn
golygu biliau rhatach i'r preswylwyr.

Mae pob fflat annibynnol yn cynnwys:

- ystafell ymolchi gyda chawod
cerdded i mewn, ystafell wely dwbl,
cegin, lolfa, cyntedd
- mynediad i'r anabl
- larwm gyda telecare
- intercom
- teledu digidol a lloeren



Am fwy o wybodaeth a ffurflen gais cysylltwch â:

Grŵp Gwalia:	Kathy Tanner	01792 488222
	Swyddfa Rhydaman	01269 597762
Cyngor Sir Gâr:		01267 234567

O gwmpas y fro...



Dylan Thomas yn cyflwyno £2000 er cof am Ivor Thomas, Creuddyn Bridge rhwng Ambiwylans Llanbedd ac Uned Gofal Dwys, Ysbyty Bronglais.



Cyflwynwyd sic i Uned Penderfyniadau Clinigol, Ysbyty Tywysog Phillip gan Mrs Morwen Thomas er cof am ei mam Mrs Gertie Walters, Cribyn.



Eirlys, Lena a Neil, tri o wirfoddolwyr Tenovus yn cwblhau y ras am fws – y tri dros 70 oed. Da iawn wir.



Rhodri Bowen, Delyn Aur, Llanwnnen a ddringodd mynydd Kilimanjaro yn Tanzania sef uchder o 5,895 metr.



Buddugwyr Ffair Ram Cwmann ar yr 11eg o Fedi gyda'u gwobrau a gyflwynwyd gan y llywydd Mrs Iona Reeves, Talgarreg.



Dechrau Taith Gerdded Ysgol Feithrin Gwenog a chyflwyno rhodd o ddiolch i Mr Bracey, y gofalwr, am ei holl waith dros y flwyddyn.



Rhian Thomas o Ysgol Llanllwni gyda'i holl rosetiau a chwpau enillodd mewn sioeau yn ystod yr haf wrth ddangos ei defaid Balwen.



Tomos, Manon a Harri yn cyflwyno Susan Evans un o staff Barclays am eu cyfraniad Punt am Bunt i daith gerdded Ysgol Llanybydder.